# Ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2024/25

# Crynodeb o'r ymgynghoriad ac ymateb CNC

Ionawr 2024

# Cynnwys


Cyflwyniad ... 1

Ein cynigion codi tâl ... 1

Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) ... 2

Trwyddedu Rhywogaethau ... 2

Cynigion i liniaru cyfundrefnau sydd ar eu colled neu o dan bwysau chwyddiant ... 3

Cynnydd yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ... 4

Sut wnaethom ni ymgynghori? ... 4

Sut wnaethom ni ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad? ... 4

Ymatebion i'r ymgynghoriad ... 4

Nifer yr ymatebion: ... 4

Sectorau a gynrychiolir: ... 5

Lleoliadau daearyddol yr ymatebwyr: ... 5

Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) ... 10

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion codi tâl ar gyfer COMAH? ... 10

Mae'r taliadau'n rhy ddrud ... 10

Dull awdurdod cymwys ... 11

Chwilio am ffyrdd i leihau costau ... 11

Tryloywder ... 12

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion codi tâl ar gyfer trwyddedu rhywogaethau? ... 13

Dylai taliadau fod yn gymesur ... 13

Cost adnewyddu yn rhy uchel ... 14

Ansawdd y gwasanaeth ... 14

Hepgoriadau trwyddedu rhywogaethau ... 15

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hawgrymiadau am gynnydd ar gyfer cyfundrefnau sydd â diffyg i ymdopi â mantoli eu cyfrifon? ... 16

Fforddiadwyedd ... 16

Mae'r costau'n rhy ddrud ... 17

Arbedion Effeithlonrwydd ... 18

Cynllunio ar gyfer yr hirdymor ... 18

Lefelau gwasanaeth ... 19

Tryloywder ... 21

Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg ... 24

A allai'r cynigion effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? .................. 24
A oes modd i ni gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg neu roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? .................. 24
A oes yna unrhyw agweddau ar y cynigion a allai roi pobl dan anfantais wrth ddefnyddio'r Gymraeg? .................. 24
Ydych chi'n credu bod y cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? 24
Y Camau Nesaf .................. 25
Atodiad 1 - Cynigion ymgynghori Codi Tâl .................. 26
Atodiad 2 –Ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad .................. 26
ATODIAD 3 – Rhestr Termau .................. 42

## Cyflwyniad

Fel corff Llywodraeth Cymru (LlC), rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru’. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn adennill costau'r gwasanaethau rheoleiddio a ddarparwn gan y rhai sy'n eu defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl, yn hytrach na chael y gwasanaethau hynny wedi'u hariannu drwy drethiant cyffredinol.

Nid oedd llawer o ffioedd a thaliadau CNC wedi cael eu hadolygu'n llawn ers sawl blwyddyn. Gan ddechrau gyda'r Adolygiad Strategol diweddar o Godi Tâl ar gyfer ceisiadau, rydym wedi dechrau ar ddull hirdymor i sicrhau bod codi tâl ar draws CNC yn adlewyrchu costau.

## Ein cynigion codi tâl

Lle rydym wedi cynnig cynyddu faint o incwm a gasglwn o'n cynlluniau codi tâl, mae hynny er mwyn adennill cost ein dyletswydd rheoleiddio statudol sy'n helpu i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli’n gynaliadwy a bod canlyniadau cadarnhaol i'r bobl ac i natur yng Nghymru.

Wrth gynnig ffioedd a thaliadau newydd, rydym yn dilyn egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ogystal â rheolau Trysorlys EF a'n rhwymedigaethau deddfwriaethol, gan sicrhau mai dim ond costau cymwys sy'n cael eu cynnwys o fewn taliadau. Mae'r dull hwn hefyd yn gyson â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. Ni fyddai'n briodol ceisio cyllid Cymorth Grant ychwanegol ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio y dylai taliadau fod yn talu amdanynt, na defnyddio cymhorthdal o ffrydiau incwm eraill.

Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau rheoleiddio, gan addasu a chymhwyso ein polisi a'n dulliau o ymdrin â risg neu'n dyletswyddau statudol, gan sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl. Bydd unrhyw adolygiad o daliadau yn cynnwys dadansoddiad manylach o'n prosesau a'n sylfaen gostau. Mae angen i ni hefyd ddarparu gwasanaeth o fewn tirwedd reoleiddiol neu ddeddfwriaethol sy'n esblygu, sy'n aml yn dod â chymhlethdod neu alw cynyddol a all effeithio ar lefelau gwasanaeth neu effeithlonrwydd. Bydd gwelliannau a wnawn yn helpu i symleiddio prosesau, fodd bynnag, os ydym yn cael ein gyrru gan dystiolaeth neu ddyletswyddau statudol i wneud mwy, byddwn yn gwneud hynny. Byddwn yn ceisio gwneud hyn mor effeithlon â phosibl wrth gyflawni diben y ddyletswydd honno.

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai busnesau, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol ehangach o ganlyniad i chwyddiant a'r costau byw cynyddol. Byddai methu â rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu adennill costau llawn fodd bynnag yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd reoleiddio, ein gallu i atal llygredd ac ar ein gallu i gyfrannu tuag at yr ymdrech i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae cyllido cynaliadwy yn golygu y gallwn gynnal ein cymwyseddau arbenigol, sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a thrwyddedau ac addasu rheoleiddio. Mae'n bwysig y gallwn addasu rheoleiddio a chyllid i gyflawni'r lefel o reoleiddio sydd ei hangen yng Nghymru i atal llygredd ac i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

## Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)

Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, yw Awdurdod Cymwys COMAH yng Nghymru.

Rydym yn codi taliadau i adennill ein costau ar sail amser a deunyddiau, ond mae ein costau presennol o £161 fesul awr arolygydd yn ein gadael yn brin o adnoddau i gyflawni ein dyletswyddau yn y maes hwn. Rydym wedi nodi hyn fel risg sylweddol i'n gallu i gyflawni ein dyletswydd reoleiddio.

Gwnaed argymhelliad gennym i wneud tri newid i'r taliadau COMAH.

- Cynyddu'r gyfradd cydymffurfio fesul awr o £161/awr i £202/awr.
- Rydym wedi cael trafodaethau gydag awdurdodau cymwys eraill y DU i sicrhau bod gennym ddull cyson o ymgysylltu â darpar newydd-ddyfodiaid COMAH a safleoedd COMAH presennol sy'n gwneud addasiadau. Mae CNC yn cynnig mabwysiadu dull awdurdod cymwys COMAH o adennill costau ar gyfer gwaith ymgysylltu cynnar gyda gweithredwyr COMAH sydd o fewn y cwmpas.

  Rydym yn aros am gadarnhad o'r dull awdurdod cymwys gan Grŵp Rheoli Strategol Awdurdod Cymwys COMAH. Unwaith y cytunir arno, mae CNC yn bwriadu gweithredu'r gyfradd COMAH fesul awr a fydd ar waith bryd hynny.
- Cyflwyno tâl ar gyfer y gost o arfer cynlluniau argyfwng COMAH awdurdodau lleol ar gyfradd reoleiddiol yr awr o £125/awr. Bydd y taliadau hyn yn cael eu pasio ymlaen i weithredwyr drwy eu hawdurdod lleol.

## Trwyddedu Rhywogaethau

Yn ddiweddar, cyflwynwyd tâl trwyddedu rhywogaethau drwy ein rhaglen Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC). Mae'r set hon o gynigion newydd yn ceisio cau'r bwlch ymhellach ar adennill costau llawn yn y maes hwn ac mae'r taliadau a gynigir yr un fath â'r rhai a gyflwynwyd yng nghylch cyntaf yr Adolygiad Strategol, ond gyda chynnydd chwyddiant o +3% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr [CPI]) wedi'i gymhwyso i'r elfen ffioedd sefydlog.

- Gwelliannau i'r Drwydded Moch Daear – Amrywiad gweinyddol - ffi sefydlog o £75; diwygiadau cymhleth £125/awr.
- Rhywogaethau Morol a Warchodir gan Ewrop – (Rhesymau hanfodol o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd) – Trwydded newydd (cymhleth) £125/awr; Ffi sefydlog amrywiad gweinyddol £75; diwygiadau cymhleth £125/awr.
- Rhyddhau cyfryngau bio-reoli anfrodorol – Trwydded newydd / Adnewyddu trwydded (cymhleth) £125/awr; Ffi sefydlog amrywiad gweinyddol £75; diwygiadau cymhleth £125/awr.
- Codir diwygiadau cymhleth i drwyddedau arolygon ar gyfradd o £125 yr awr. Ar hyn o bryd rydym yn codi ffi sefydlog (£73) am ddiwygiadau gweinyddol a chymhleth i drwyddedau arolygon tra bod yr holl welliannau cymhleth eraill yr ydym yn eu cymhwyso ar draws trwyddedu rhywogaethau yn £125/awr. Er mwyn sicrhau yr adenillir y gost yn llawn, cynigiwyd codi £125/awr yn y meysydd diwygiadau cymhleth hyn hefyd.

## Cynigion i liniaru cyfundrefnau sydd ar eu colled neu o dan bwysau chwyddiant

Ar gyfer y cynlluniau hynny sydd naill ai ar eu colled ar hyn o bryd neu'n rhagweld diffyg ariannol wrth symud ymlaen, cynigiwyd y dulliau canlynol:

- Cynnydd penodol i'r cyfundrefnau hynny sydd ar eu colled er mwyn sicrhau sefyllfa o fantoli erbyn 2026/27. Bydd hyn yn berthnasol i'r cynlluniau cynhyrchu taliadau cynhaliaeth mwy.
- Cynnydd yn unol â chwyddiant (a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfradd CPI o 3%) cyn adolygiad manwl yn y blynyddoedd i ddod i roi sicrwydd i ni o adennill y costau llawn. Mae hyn yn ymwneud â'r cynlluniau cynhyrchu tâl llai hynny a fyddai fel arall angen cynnydd sylweddol i gyrraedd sefyllfa adennill costau erbyn 2026/27 ond sydd wir angen adolygiad manwl yn y blynyddoedd i ddod i roi sicrwydd i ni o adennill costau llawn.
- Cynnydd yn unol â chwyddiant (a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfradd CPI o 3%) ar daliadau trwyddedau a gyflwynir trwy'r Adolygiad Strategol o Godi Tâl.

Mae'r tri maes o gynigion wedi'u dadansoddi fel a ganlyn:

- Cynnydd penodol o +5% a gynigiwyd yn 2024/25 ar gyfer y meysydd cynhaliaeth canlynol:
  - Tâl Uned Safonol Adnoddau Dŵr (SUC)
  - Gosodiadau (gan gynnwys Cyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Canolig [MCPD])
  - Gwastraff ar y safle
  - Ansawdd Dŵr.
- Cynnydd mewn chwyddiant (a ragwelir ar hyn o bryd ar +3%) a gynigiwyd yn 2024/25 ar gyfer y meysydd cynhaliaeth canlynol sydd angen adolygiad manwl yn ystod y blynyddoedd nesaf:
  - An-niwclear
  - Masnachu Allyriadau'r DU (Taliadau Trwyddedu a Chynhaliaeth)
  - Cyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau (MRF)
  - Cludwyr Gwastraff, Broceriaid a Delwyr
  - Trwyddedau Asesu Perygl Llifogydd (FRAPs)
  - Cydymffurfiaeth ym maes Cronfeydd Dŵr.
- Cynnydd yn unol â chwyddiant (a ragwelir ar hyn o bryd ar +3%) a gynigiwyd yn 2024/25 ar gyfer y meysydd trwyddedu canlynol:
  - Adnoddau Dŵr – Trwyddedau tynnu / cronni
  - Trwyddedau Gosod o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys taliadau offeryn bandiau tâl a gyflwynwyd yn ddiweddar yn ogystal â Chyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Canolig [MCPD])
  - Trwyddedau Gwastraff Seiliedig ar y Safle o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
  - Trwyddedau Ansawdd Dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
  - Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol An-niwclear

- Diogelwch cronfeydd dŵr
- Trwyddedu Rhywogaethau.

### Cynnydd yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)

Rydym wedi cymhwyso cyfradd rhagolwg diweddaraf y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (Tachwedd 2023) ar gyfer 2024/25, wedi'i gadarnhau ar 3%, sydd wedi gostwng ychydig o'r cynnydd o 3.1% yr oeddem wedi'i amlygu yn ein hymgynghoriad.

Bydd unrhyw ffioedd a thaliadau rheoleiddio nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn parhau i fod ar waith ar gyfraddau cyfredol 2023/24 ar gyfer 2024/25.

## Sut wnaethom ni ymgynghori?

Cyn ein hymgynghoriad, cynhaliwyd cyfarfod Grŵp Ymgynghorol Talwyr Tâl i rannu'r rhesymau a'r fethodoleg, gan godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a busnesau o'n cynigion. Cafodd Llywodraeth Cymru ei hysbysu'n rheolaidd gydol y broses hon. Buom yn cynnal sesiynau briffio yn y cyfryngau, yn defnyddio negeseuon yn y cyfryngau cymdeithasol ac e-byst i dynnu sylw at yr ymgynghoriad agored ac i ofyn am fewnbwn gan randdeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar-lein drwy hwb ymgynghori CitizenSpace ac roedd ar agor rhwng 16 Hydref 2023 ac 8 Ionawr 2024. Yn ogystal, roeddem yn derbyn ymatebion drwy'r post a thrwy e-bost. Roedd yr opsiynau ymgynghori ac ymateb ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Sut wnaethom ni ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad?

Defnyddiodd ein dadansoddiad o'r ymatebion ymgynghori ar-lein ddadansoddiad meintiol (er enghraifft graddfa Likert '*Cytuno'n gryf' i 'Anghytuno'n gryf*"), a dull ansoddol gan ddefnyddio dadansoddiad thematig o'r ymatebion testun rhydd. Mae hwn yn ddull a gydnabyddir yn eang o ddadansoddi data ansoddol a'n galluogodd i gynhyrchu mewnwelediadau a chysyniadau sy'n deillio o'r ymatebion.

Rydym wedi amlinellu'r adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad a'n hymatebion isod. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion wedi'u talfyrru yn yr adran 'Fe ddywedoch chi' isod i ddistyllu'r pwyntiau allweddol. Gellir gweld y testun llawn o'r holl ymatebion yn Atodiad 2.

Mae llawer o'r wybodaeth hon yn ddienw ond lle mae ymatebydd wedi cynnwys ei sefydliad yn ei ymateb, nid yw hyn wedi'i dynnu o'r Atodiad.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

### Nifer yr ymatebion:

Daeth 11 o ymatebion i law drwy'r ymgynghoriad. Derbyniwyd pump o'r rhain gan unigolion, derbyniwyd pump gan sefydliadau ar ran eu haelodau ac un gan fusnes. Cyflwynwyd dau o'r ymatebion gan sefydliadau fel ymatebion ysgrifenedig yn unig yn hytrach na thrwy ein hyb ymgynghori.

Rydym wedi grwpio pwyntiau a wnaed mewn ymateb i gwestiynau ymgynghori testun rhydd i themâu cylchol.

## Sectorau a gynrychiolir:

Cawsom ymatebion gan unigolion, sefydliadau a busnesau yn y sectorau canlynol:


- Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota
- Adeiladu; Gweithgareddau aelwydydd fel cyflogwyr; nwyddau heb eu gwahaniaethu – a gwasanaethau – sy'n darparu gweithgareddau i aelwydydd
- Gweithgynhyrchu
- Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol
- Gweithgareddau eiddo tiriog
- Gweithgareddau carthffosiaeth cyflenwi dŵr, rheoli gwastraff ac adfer

## Lleoliadau daearyddol yr ymatebwyr:


- Cymru gyfan – 46%
- Gogledd-ddwyrain (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, neu Wrecsam) – 9%
- De-orllewin (Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, neu Abertawe) – 9%
- Lleoliad heb ei roi / eraill – 36%

## A oes gennych drwydded, caniatâd neu ganiatâd a roddwyd gan CNC ar hyn o bryd?

**Ymatebion gan unigolion:**





**Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:**




## I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno mai’r rhai sy’n defnyddio gwasanaethau rheoleiddio CNC ddylai dalu amdanynt yn hytrach na’r trethdalwr neu’r talwyr taliadau eraill?

**Ymatebion gan unigolion:**




**Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:**




<u>Fe ddywedoch chi:</u>

- Yng nghyd-destun trwyddedu, nid yw cymhwyso'r egwyddor mai'r 'llygrwr sy'n talu' yn gwbl glir. Os gellir sicrhau, drwy'r drefn drwyddedu, nwyddau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys diogelwch bwyd a bywiogrwydd gwledig a budd economaidd-gymdeithasol, credwn y gellir gwneud achos cryf i gefnogi cyflwyno'r drefn codi tâl drwy Gymorth Grant.
- Mae angen i CNC gydnabod hefyd y bydd ffermwyr yn ganolog i gyflawni ei amcanion amgylcheddol wrth symud ymlaen, a dim ond o sefyllfa o hyfywedd economaidd y gall busnesau fferm gyflawni buddion ehangach i gymdeithas. Mae cyfundrefn reoleiddio sy'n galluogi, sy’n cynnwys trwyddedu, yn hanfodol i ffermwyr fel y gallant ddatblygu ac adeiladu cydnerthedd economaidd ac, felly, cydnerthedd amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

<u>Ein hymateb:</u>

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r gost i CNC o ddarparu gwasanaethau rheoleiddio gael ei hariannu gan y rhai sy'n derbyn budd y gwasanaeth hwnnw yn hytrach na ffynonellau incwm eraill fel defnyddio cymhorthdal o ffynonellau eraill neu drethiant cyffredinol (Cymorth Grant). Mae hyn yn cyd-fynd â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a rheolau Trysorlys EF.

Credwn y byddai'n afresymol ceisio cyllid amgen ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio lle dylai'r rhai sy'n elwa'n uniongyrchol ar y gwasanaeth a ddarparwn iddynt ddod gael eu cwmpasu ganddynt. Ni allwn drosglwyddo cymhorthdal i un gyfundrefn reoleiddio o ffrydiau incwm eraill di-gyswllt.

Yn yr un modd, ni allwn roi cymhorthdal i daliadau ar gyfer unrhyw un sector busnes hyd yn oed os yw gweithredu’r gweithgarwch a reoleiddir hefyd yn darparu rhywfaint o fudd ehangach. Dan amgylchiadau eithriadol, penodol ac ar gyfer gweithgareddau anfasnachol, mae CNC yn cefnogi nifer fach o weithgareddau trwy hepgoriadau er bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.


Rydym yn rheoleiddio llawer o unigolion a busnesau trwy amrywiaeth o ddeddfwriaethau. Mae gan lawer o'r gweithgareddau a reoleiddir elfennau o fudd cymdeithasol, a'r potensial i gefnogi ein rôl yn sicrhau lles, a gallant ddarparu cyfleoedd i wella. Rydym yn rheoleiddio'r gweithgareddau hyn oherwydd mae gennym ddyletswydd statudol i wneud hynny oherwydd gallant hefyd arwain at risg o niwed.

Mae rheoleiddio'n darparu budd cymdeithasol trwy ddarparu diogelwch amgylcheddol ac atal niwed. Felly, mae ymdrech reoleiddiol yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, y gall natur adfer, a'n bod yn addasu i newid hinsawdd.


Rydym yn gweithio'n rheolaidd gyda'r rhai rydym yn eu rheoleiddio i gymhwyso ac addasu rheoleiddio mewn ffordd gymesur sy'n seiliedig ar risg i leihau'r baich ar fusnesau a chynnal dull teg a chyson ar draws sectorau.

## A ydych chi'n credu bod dewisiadau gwell o ran sut mae CNC yn bwriadu ariannu ei weithgareddau rheoleiddio?

**Ymatebion gan unigolion:**




**Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:**




<u>Fe ddywedoch chi:</u>

- Mae'r taliad am wasanaethau rheoleiddio gan y rhai sydd fel arfer yn eu defnyddio yn gwneud cyfraniad pwysig i'r egwyddor mai'r 'llygrwr sy'n talu'. Mae'n anghyson bod y gost o wirio cydymffurfiaeth â rheoliadau amaethyddol yn cael ei dalu gan y trethdalwr, trwy grant Llywodraeth Cymru i CNC.
- Yn cefnogi'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu ac, ar y sail hon, nid yw ond yn deg bod unrhyw wasanaethau rheoleiddio penodol a ddarperir gan CNC yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan y rhai sy'n elwa ar y gwasanaethau trwyddedu hynny.
- Pan gyflawnir gweithgareddau sy'n gofyn am drwydded/caniatâd er budd amgylcheddol yn unig, ac am gost uniongyrchol a heb fudd masnachol i unigolion a sefydliadau, credwn ei bod yn briodol i'r trethdalwr ysgwyddo rhywfaint o gostau CNC neu'r cyfan ohonynt, gan fod hyn yn darparu budd y cyhoedd ehangach.
- Dylid gwerthuso'r drefn drwyddedu i nodi lle mae buddion nwyddau cyhoeddus ehangach i gymdeithas yn cael eu darparu gyda'r bwriad o gefnogi'r costau trwy Gymorth Grant.
- Mae'n siomedig bod dirwyon sy'n deillio o waith gorfodi CNC yn cael eu talu i Drysorlys EF. Ymddengys bod hyn yn rhoi amgylchedd Cymru dan anfantais o'i gymharu â'r sefyllfa yn Lloegr. Y llynedd, cyhoeddodd y Canghellor y byddai dirwyon sy'n deillio o weithgarwch gorfodi Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn erbyn cwmnïau dŵr yn cael eu hail-fuddsoddi mewn cynlluniau sydd o fudd i'r amgylchedd naturiol. Credwn y dylai polisi tebyg fod ar waith yng Nghymru, gyda dirwyon am droseddau amgylcheddol yn cael eu defnyddio i wella'r amgylchedd yng Nghymru, yn hytrach na chael eu talu i'r Trysorlys
- Yn fy marn i, credaf y dylid ei haenu i gefnogi datblygu cynaliadwy, gydag endidau mwy/busnesau masnachol yn talu ffioedd uwch, yn gymharol, er mwyn i geisiadau llai fod yn rhatach wedyn. Neu gostau ymlaen llaw is i

gefnogi pobl, yna codi'r ffioedd gorfodi a thaliadau am dorri rheolau (lle bo hynny'n rhesymol).

Ein hymateb:

Daw cyllid CNC o gymysgedd o gymorth uniongyrchol a bennir gan Lywodraeth Cymru (Cymorth Grant), incwm masnachol neu drwy incwm o godi tâl.

Wrth ystyried sut mae'r ffrydiau incwm gwahanol hyn yn ymwneud â'n cynllun codi tâl ac unrhyw hepgoriadau, mae'n rhaid i ni gydymffurfio â mecanweithiau cyllido a chymorthdaliadau, a rheolau sydd eisoes ar waith ledled Cymru.

Mae ein dyletswyddau'n amrywiol, gan greu darlun ariannu cymhleth. Rydym yn ymwybodol bod anghysonderau'n bodoli o ran sut mae gweithgareddau buddiol ledled Cymru yn cael eu cefnogi. Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn ceisio nodi anghysonderau, cynnal gwasanaeth rheoleiddio da a sicrhau bod ein gweithgarwch yn cael ei adennill yn y ffordd fwyaf teg a chynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn wyneb lleihau cyllid Cymorth Grant, a allai leihau ein gallu i reoleiddio'n effeithiol gan arwain at niwed amgylcheddol yn yr hirdymor.

Er bod y rhan fwyaf o'n gweithgarwch rheoleiddio yn gysylltiedig â chaniatadau penodol, mae rhai yn fwy cyffredinol, er enghraifft lle mae rheoliadau'n cael eu gweithredu ledled Cymru heb unrhyw ofyniad ar hyn o bryd i ddal trwydded benodol. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae angen i ni gael ein cefnogi drwy gyllid grant yn ôl disgresiwn Llywodraeth Cymru.

Mewn sefyllfaoedd penodol, lle bo'n briodol, rydym wedi defnyddio hepgoriadau i gyfrannu arian grant tuag at weithgareddau penodol, er enghraifft:

- Bydd hepgoriadau presennol ar gyfer gweithgareddau trwyddedu rhywogaethau penodol yn aros yr un fath.
- Yn flaenorol, rydym wedi cadw taliadau am rai ceisiadau am drwyddedau cronni ar gyfer sefydliadau anfasnachol neu drydydd sector ar lefelau hanesyddol, er y bydd y rhain yn destun cynnydd chwyddiant o 3% ar gyfer 2024/25. Roedd y rhain ar gyfer gweithgarwch anfasnachol a wneir yn gyfan gwbl ac yn unswydd at ddibenion budd amgylcheddol o fewn Adnoddau Dŵr (ac eithrio gweithgareddau i ddarparu Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol y cwmni dŵr).

Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylai costau darparu ein gwasanaethau gael eu talu gan y rhai sy'n eu defnyddio. Mae ein taliadau cynhaliaeth yn adennill costau gweithgarwch cydymffurfio sy'n allweddol i sicrhau bod trwyddedau'n darparu'r amddiffyniad y bwriedir iddynt ei roi ac yn darparu chwarae teg o fewn sector. Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar risg, yn ystyried y baich ar fusnes, ac mae'n gymesur yn unol ag Adran 3 Cod y Rheoleiddwyr a'n[1] Hegwyddorion Rheoleiddio[2].

Mae codi tâl ac adennill costau mewn perthynas â gorfodi yn faes yr ydym yn ei archwilio ar draws ein cylch gwaith eang. Mae dirwyon o erlyniadau yn dychwelyd i

---

[1] Cod Rheoleiddwyr (publishing.service.gov.uk)

[2] Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein Hegwyddorion Rheoleiddio

Drysorlys EF neu i Lywodraeth Cymru ac rydym yn dibynnu ar Gymorth Grant i ariannu camau gorfodi.

Credwn fod gorfodi, yn enwedig erlyniad, yn offeryn pwysig. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd dulliau amgen, sy'n ceisio ysgogi gwelliant naill ai trwy sicrhau bod gweithredwyr yn parhau i gydymffurfio neu ddefnyddio mwy o opsiynau gorfodi eraill sy'n ail-fuddsoddi yn yr amgylchedd.

Rydym yn ceisio cwmpas ehangach ar gyfer sancsiynau sifil ar draws ein cylch gwaith yng Nghymru. Rydym eisoes yn defnyddio sancsiynau sifil gan gynnwys ymgymeriadau gorfodi lle gall troseddwyr, mewn rhai sefyllfaoedd, gyfrannu at wella'r amgylchedd fel dewis arall yn lle achos llys.

Yng Nghymru rydym wedi datblygu proses drwyddedu newydd ar gyfer gorlifiant stormydd i sicrhau bod gwelliannau ac amddiffyniadau hirdymor yn cael eu blaenoriaethu a'u rheoli gan y Cwmnïau Dŵr yn hytrach na cheisio cymryd camau gorfodi ad-hoc adweithiol.

## Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)

### I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion codi tâl ar gyfer COMAH?

**Ymatebion gan unigolion:**

| | |
|---|---|
| 40% Yn anghytuno'n gryf | 60% Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |

**Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:**

| | | |
|---|---|---|
| 33% Dim ymateb | 50% Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 17% Yn cytuno |

**Mae'r taliadau'n rhy ddrud**

Fe ddywedoch chi:

- Mae angen i'r cyfrifwyr roi'r gorau i gyfrif syml a mynd i'r afael â chael costau sefydlog ac amrywiol i lawr, a heb weld o ble mae'r £161* hwnnw'n deillio, mae'n anodd iawn dweud a yw'n deg ai peidio, ond mae'n ymddangos yn uchel iawn. Os ydynt yn credu bod £161 yr awr yn gost yr awr resymol i adennill costau (a faint o oriau sydd eu hangen fesul achos?).
- Rwy'n gweithio yn y sector preifat ac yn codi tâl o £150+TAW/awr am wasanaeth proffesiynol, gydag elw gros iach wedi'i gynnwys yn y pris hwnnw.

Dyna'r pris hyd yn oed nawr gyda chwyddiant cyfleustodau wedi cynyddu, sydd wedi lleihau'r elfen elw gros honno ychydig.

* Noder ein bod yn cynnig codi tâl o £202/awr ac nid £161/awr fel y nodwyd gan yr ymatebydd.

Ein hymateb:

Mae ein rôl yn atal y risg o'r digwyddiadau llygredd mwyaf difrifol a hirhoedlog yn faes arbenigol sy'n gofyn am staff sydd wedi derbyn hyfforddiant sylweddol. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau cymwys eraill y DU yn cynnal adolygiad tebyg o daliadau COMAH i CNC ar gyfer y flwyddyn 2024/25. Eu prisiau cyfatebol ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2023/24 yw:

- Asiantaeth Diogelu’r Amgylchedd yr Alban - £189 yr awr
- Tâl COMAH Asiantaeth yr Amgylchedd - £161 - Ffioedd a thaliadau Asiantaeth yr Amgylchedd - GOV.UK (www.gov.uk) a
- Cyfradd codi tâl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) - £192 - HSE - Codi Tâl: Adennill costau ar gyfer Gweithgareddau COMAH - Canllaw.

Rydym yn fodlon bod y tâl arfaethedig yn adlewyrchu'r gost i CNC o'r gwaith a wnawn ac yn sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn y dyfodol.

Fel llawer o fusnesau ledled Cymru, rydym yn archwilio sut y gallwn leihau ein costau a'n hôl troed carbon trwy resymoli ein gorbenion, gan gynnwys adeiladau.

### Dull awdurdod cymwys

Fe ddywedoch chi:

- Nodwn eich bod yn aros am gadarnhad o'r dull awdurdod cymwys mewn perthynas â'ch cynigion COMAH. Sut y bydd y cynigion yn cael eu monitro a'u cymhwyso ar ôl eu cadarnhau a pha ddisgwyliad sydd yno y bydd y cynnig codi tâl yn ddigon i adennill costau llawn neu'n rhannol?

Ein hymateb:

Credwn y bydd y cynnig codi tâl yr ydym wedi'i amlinellu yn golygu y gallwn adennill costau llawn. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau bod y tâl yn adennill ein costau yn unig. Os bydd y gost i CNC o gyflawni'r newid yn y gwasanaeth yn cynyddu neu'n gostwng, byddwn yn cynnig diwygio'r tâl.

### Chwilio am ffyrdd i leihau costau

Fe ddywedoch chi:

- Mae angen i CNC geisio cyfleoedd i ostwng costau neu gynyddu incwm (h.y., gosod paneli solar ar yr adeiladau, efallai, i leihau gorbenion sefydlog, os yw CNC yn gorfod talu cyfraddau arwynebedd llawr, a ellid rhoi'r adeilad yn enw elusen a bod CNC yn rhentu'r adeilad yn ôl am rent hedyn pupur, mae'n siŵr bod digon o opsiynau i ostwng costau a chynyddu incwm).

Ein hymateb:

Rydym yn chwilio'n rheolaidd am ffyrdd o leihau ein gorbenion. Er enghraifft, mae ein rhaglen Ystadau yn un o'r ffyrdd rydym yn archwilio sut y gallwn leihau ein costau a'n hôl troed carbon trwy resymoli ein portffolio o adeiladau ledled Cymru.

Rydym eisoes wedi cymryd camau priodol i elwa ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ein hadeiladau a allai arwain at leihau gorbenion yn y blynyddoedd i ddod o fewn cyfundrefnau codi tâl.

**Tryloywder**

Fe ddywedoch chi:

- Sut mae'r £161 yr awr yn cael ei gyfrif? Nid oes tabl o ddata i ddeall mathemateg y swm yma? ...sut y gall cost CNC fod mor hurt o uchel i godi tâl am hynny a'i alw'n adennill costau?
- Darllenwch Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i CNC adennill costau gwasanaethau rheoleiddio yn llawn gan y rhai a reoleiddiwn, yn hytrach na thrwy drethiant cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gweithio. Er ei fod yn fodel gwahanol (h.y., wedi'i breifateiddio), cymerwch olwg ar Ymgymerwyr Dŵr, byddant yn talu'r dirwyon oherwydd bod hynny'n rhatach na gwneud y gwaith cyfalaf ar gyfer WwTW
- Os yw'r cyhoedd eisiau amgylchedd hyfryd, mae'n rhaid iddynt dalu amdano. Ac o dan egwyddor y llygrwr sy'n talu, ni ddylai CNC ddirwyo cwmnïau (lle nad yw cwsmeriaid yn wynebu codiad mewn prisiau oherwydd y dirwyon), a dylai cyfarwyddwyr cwmnïau unigol sy'n cael eu diswyddo neu'n wynebu gwarth fod yn bersonol atebol am y niwed a wneir tra'u bod nhw wrth y llyw (h.y., cyfarwyddwyr y cwmnïau dŵr).

Ein hymateb:

Mae CNC wedi defnyddio egwyddorion adennill costau llawn yn unol â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* i gyfrifo'r taliadau arfaethedig. Mae'n cyfarwyddo na ddylem wneud unrhyw elw na cholled o'n gweithgareddau rheoleiddio. Dim ond ein costau y caniateir i ni eu hadennill ac ni allwn drosglwyddo cymhorthdal o ffynonellau cyllid eraill.

Rydym wedi cyfrifo pob tâl drwy nodi'r gweithgareddau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â phennu pob math o drwydded/caniatâd, pa mor hir y maent yn ei gymryd a beth yw'r gost. Yna cymhwyswyd dyraniad teg a chymesur o gost gweithgareddau anuniongyrchol yn seiliedig ar lefel y gweithgaredd uniongyrchol. Credwn fod ein methodoleg yn gadarn ac yn cydymffurfio â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* ac egwyddorion rheoleiddio.


Rydym wedi sicrhau bod ein dull gweithredu yn unol ag awdurdodau cymwys eraill y DU.

Yn y sector hynod reoleiddiedig hwn lle mae deiliaid trwyddedau cyfrifol yn gweithio'n agos gyda ni i atal niwed, ni chredwn fod ceisio adennill costau llawn ar gyfer ein taliadau rheoleiddio yn unol ag egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn rhwystr rhag ymgysylltu.


Mae CNC yn cyflwyno dadansoddiad o'r data modelu tâl i Grŵp Adennill Cost COMAH, sy'n cynnwys cymysgedd o reoleiddwyr a deiliaid trwyddedau.

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion codi tâl ar gyfer trwyddedu rhywogaethau?

**Ymatebion gan unigolion:**




**Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:**




**Dylai taliadau fod yn gymesur**

<u>Fe ddywedoch chi:</u>

- Mae'r cyfraddau codi tâl presennol yn annheg gan eu bod yn seiliedig ar statws deiliad tŷ neu ddatblygiad lleol. Mae hyn yn golygu y gall tŷ ddyblu o ran maint a thalu dim, ond yn achos trawsnewid ysgubor fach rhaid talu bron i £1,000.
- Mae'r cyfraddau codi tâl hefyd yr un fath ar gyfer ystlum unigol ag ydyw ar gyfer cytref famolaeth fawr.
- Oni allai Cymru gyflwyno trwydded clwydfan fach fel yn Lloegr?
- Ar hyn o bryd, yr union bobl rydym yn ceisio eu haddysgu ac yn disgwyl iddynt ofalu am ystlumod yn y dyfodol yw'r rhai sy'n cael eu cosbi fwyaf.
- Mae'n ymddangos bod y taliadau'n cael eu pwysoli'n fawr tuag at ddatblygiadau mwy heb unrhyw gonsesiynau ar gyfer rhai llai lle mae cyllidebau'n aml yn dynn iawn.

<u>Ein hymateb:</u>

Rydym yn bwriadu adolygu hepgoriadau ar gyfer datblygiadau ac estyniadau deiliaid tai yn 2025. Wrth symud ymlaen, wrth i CNC leihau ei ddibyniaeth ar gyllid Cymorth Grant, efallai y byddwn yn ymgynghori ymhellach ar newidiadau i'r hepgoriadau hyn.

Mae'r tâl am ddatblygiadau llai yn seiliedig ar yr amser cyfartalog a gymerir i bennu trwydded. Roeddem o'r farn mai dyma'r ffordd decaf o godi tâl am ddatblygiadau llai a sicrhau bod ymgeiswyr yn gwybod y gost ymlaen llaw.

Mae'r tâl am ddatblygiadau mawr yn seiliedig ar gyfradd fesul awr ac nid ffi sefydlog safonol. Mae'n anodd felly dweud a yw'r taliadau'n sylweddol wahanol ar gyfer

statws datblygiadau lleol neu ddeiliaid tai - gallent fod yn uwch neu'n is yn dibynnu ar yr amser penderfynu a lefel y cymhlethdod.

Mae taliadau gwneud cais ar gyfer cytrefi mamolaeth ystlumod unigol neu fwy yn seiliedig ar gostau cyfartalog gan fod hyn yn darparu'r ateb tecaf a mwyaf effeithlon. Mae hyn yn helpu i leihau cymhlethdod y cynllun codi tâl; mae'n caniatáu i gwsmeriaid ddeall eu tâl ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar staff CNC.

Ar hyn o bryd nid ydym yn ystyried cyflwyno trwyddedau clwydfannau bach ond byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa.

### Cost adnewyddu yn rhy uchel

Fe ddywedoch chi:

- Deallaf y rhesymeg dros godi'r tâl am gais newydd o ystyried yr amser prosesu ychwanegol ond ar gyfer adnewyddu mae'n ymddangos fel crocbris.
- Mae codi £133 am adnewyddu trwydded a roddwyd yn flaenorol pan nad oes unrhyw ddiwygiadau, newidiadau neu wybodaeth ychwanegol yn warthus.
- Dydw i ddim yn gweld sut rydych chi wedi cyfrifo'r ffioedd adennill hyn pan fydd yn costio'r un peth i brosesu cais newydd cyfan ag i roi stamp rwber ar adnewyddiad. Dydy o ddim yn ymddangos fel petai'n adio i fyny...

Ein hymateb:

Pan fyddwn yn derbyn cais newydd, mae'r gwaith a wnawn yn cynnwys gwirio geirda a chymwysterau. Wrth adnewyddu trwydded, nid ydym yn ail-gynnal y gwiriadau hyn, ond mae'r gwaith a wnawn yn cynnwys asesu'r wybodaeth a ddarparwyd ar y defnydd a wnaed o'r drwydded dros y ddwy flynedd flaenorol. O ganlyniad, mae'r amser y mae'n ei gymryd i brosesu cais newydd ac adnewyddu trwydded yn debyg. Felly, mae'r costau gwahanol rhwng gwneud cais ac adnewyddu trwydded bob dwy flynedd yn gymharol.

### Ansawdd y gwasanaeth

Fe ddywedoch chi:

- Amseroedd ymateb araf - fe gymerodd dros bythefnos i CNC gydnabod fy mod wedi talu ac anfon unrhyw fath o dderbynneb ataf ar gyfer fy nhrwydded flaenorol.
- Ni fu unrhyw welliannau i'r gwasanaeth ers codi tâl.

Ein hymateb:

Mae derbynebau'n cael eu darparu pan ofynnir amdanynt gan gwsmer. Nid ydym yn rhoi derbynebau ar gyfer ceisiadau am drwydded rhywogaethau fel mater o drefn. Bydd cwsmeriaid sy'n talu gyda thaliadau cerdyn yn derbyn derbynneb Worldpay. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i sut y gellir darparu derbynebau.

Nod rhaglen yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC) oedd adennill costau llawn ar gyfer gwaith presennol ac ariannu'r gwasanaeth ar y lefelau presennol.

Rydym yn cydnabod bod yr amser ymateb a gyflawnwn ar hyn o bryd yn hirach nag yr hoffem. Rydym yn derbyn nifer digynsail o geisiadau ac ymholiadau e-bost sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar ein gwasanaethau. Rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwn wella'r gwasanaeth a ddarparwn.

### Hepgoriadau trwyddedu rhywogaethau

Fe ddywedoch chi:

- Tybiwn mai dim ond diweddariad yw'r cynigion ar y taliadau trwyddedu rhywogaethau a gyflwynwyd drwy eich rhaglen Adolygiad Strategol o Godi Tâl a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol ac y bydd unrhyw hepgoriadau a nodir trwy'r rhaglen honno yn dal i fod yn eu lle heb unrhyw newidiadau.
- Mae rhai gweithgareddau sydd angen trwydded/caniatâd yn cael eu cynnal er budd amgylcheddol yn unig, ac am gost uniongyrchol a dim budd masnachol i unigolion a sefydliadau, gan gynnwys yr elusennau rydym yn eu cynrychioli. Mae gwaith o'r fath fel arfer yn hyrwyddo nodau CNC ei hun. O dan yr amgylchiadau hyn, credwn ei bod yn briodol i'r trethdalwr ysgwyddo rhywfaint neu'r cyfan o gostau CNC, gan fod hyn yn darparu budd cyhoeddus ehangach. Yn hyn o beth, credwn y dylai'r hepgoriadau presennol mewn perthynas â thrwyddedu rhywogaethau aros (serch gyda chanllawiau mwy tryloyw), fel bod y trethdalwr yn parhau i ysgwyddo'u costau.
- Rydym yn ymwybodol nad yw rhai gweithgareddau cadwraeth y mae angen i’n haelodau gael trwyddedau rhywogaethau ar eu cyfer wedi'u cynnwys o dan yr hepgoriad cadwraeth lle mae prosiectau hefyd yn gwneud elw o elfen o weithgarwch y prosiect, er mai prif bwrpas y prosiect yw cadwraeth. Hoffem weld mwy o eglurder ac arweiniad ynghylch pryd na fydd yr hepgoriad ar gyfer cadwraeth, ymchwil wyddonol ac addysg yn berthnasol o bosibl. Dylai'r broses ymgeisio fod yn fwy tryloyw, a chredwn y dylai'r hepgoriad fod yn berthnasol i unrhyw brosiect y mae cadwraeth yn brif bwrpas iddo.


Ein hymateb:

Cynigiwyd cynnydd i daliadau i sicrhau nad yw'r maes gwaith hwn yn syrthio i ddiffyg cyllidebol. Mae'r hepgoriadau a weithredwyd trwy ein rhaglen Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC) yn parhau ar waith ar gyfer 2024/25 ac nid ydynt wedi newid.

Dim ond pan nad oes elfen fasnachol i'r gwaith ac yn ôl disgresiwn CNC y caiff hepgoriadau eu hystyried. Os yw gweithgaredd sy'n cael ei drwyddedu at ddibenion cadwraeth yn unig heb unrhyw elfen fasnachol, gellir cymhwyso hepgoriad. Lle mae elfen fasnachol ac elfen gadwraeth ar waith, ni fydd hepgoriad yn berthnasol.

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hawgrymiadau am gynnydd ar gyfer cyfundrefnau sydd â diffyg i ymdopi â mantoli eu cyfrifon?

**Ymatebion gan unigolion:**




**Ymatebion gan sefydliadau a busnesau:**




**Fforddiadwyedd**

<u>Fe ddywedoch chi:</u>

- Dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau roi ystyriaeth briodol i fforddiadwyedd cynigion a'u heffaith ar hyfywedd busnesau fferm.
- Yr effaith ar agenda bolisi ehangach Llywodraeth Cymru, er enghraifft, mewn perthynas â datgarboneiddio, lles anifeiliaid ac adeiladu cydnerthedd economaidd ac amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.
- Nid ydym o’r farn ei bod yn gynaliadwy i CNC barhau i godi ei ffioedd a'i daliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn heb archwilio yn gyntaf lle y gellir gweithredu arbedion costt.
- Mae CIWM Cymru yn ymwybodol y bydd y cynnydd hwn yn effeithio ar weithredwyr llai, a gallai orfodi rhai i gau eu busnesau.
- Rydym yn croesawu ymrwymiad CNC i gynnal cyn belled ag y bo modd y taliadau cynhaliaeth blynyddol presennol. Fodd bynnag, nodwn, ar gyfer ffermydd sy'n dal trwyddedau presennol, fod CNC yn cynnig cynnydd yn unol â chwyddiant ar draws llawer o gyfundrefnau. Gofynnwn i CNC ystyried y cynigion hyn yng nghyd-destun y pwysau chwyddiant sylweddol sy'n effeithio ar gynhyrchu bwyd a amlinellwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn.

<u>Ein hymateb:</u>

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai busnesau, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol ehangach o ganlyniad i chwyddiant a'r costau byw cynyddol.

Rhaid i CNC weithio yn unol ag egwyddorion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na ddylem wneud unrhyw elw na cholled o'n

gweithgareddau rheoleiddio. Dim ond ceisio adennill ein costau yw'r nod ac ni chaniateir i ni drosglwyddo cymhorthdal o ffynonellau cyllid eraill.

Ar hyn o bryd nid ydym yn adennill ein costau mewn sawl cyfundrefn reoleiddio sy'n arwain at ddiffygion ariannol. Mae hyn wedi arwain at leihad mewn gwasanaeth mewn rhai meysydd o'n gwaith. Er ein bod wedi newid rhai o'n prosesau i fod yn fwy effeithlon, nid yw hyn yn ddigon i gydbwyso'r costau cyflenwi llawn.

Mae CNC yn adolygu ei orbenion yn rheolaidd ac yn rhoi arbedion ar waith lle bo hynny'n ymarferol. Er enghraifft, mae rhaglen o asesu anghenion o ran adeiladau a thelerau prydles wedi bod yn mynd rhagddi ers tair blynedd. Mae hyn wedi arwain at gau adeiladau gyda chynlluniau rhesymoli pellach.

Mae'r cynigion codi tâl yr ymgynghorwyd arnynt yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol yn unig mewn cyfundrefnau lle mae diffyg ariannol. Nid ydym wedi cynnig y codiadau hyn yn ddi-hid ac rydym yn gyson yn chwilio am ffyrdd i leihau ein costau.

Byddai methu â rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu adennill costau llawn yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd reoleiddio, atal llygredd a chyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

**Mae'r costau'n rhy ddrud**

Fe ddywedoch chi:

- Rwy'n deall yr angen i ychwanegu cost chwyddiant; fodd bynnag, mae cost trwydded tynnu lawn yn ormodol, ac yn sicr mae'n rhaid ei bod yn cynnwys elfen elw fawr, y tu hwnt i adennill costau?!
- Rwy'n ystyried datblygu busnes newydd ac eisiau gwneud pethau'n iawn o'r cychwyn cyntaf. Er, mae £6,327 trwydded tynnu lawn + £917 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd + £1,000 am hysbysebu yn £8,244 sy'n llawer rhy uchel.

Ein hymateb:

Cafodd y cynnydd mewn costau y cyfeiriwyd ato gan yr ymatebydd eu cyflwyno ym mis Gorffennaf 2023 ac nid ydynt yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ar gyfer 2024/25, cynigiwyd cynnydd chwyddiant yn unig ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr.

Rhaid i CNC weithio yn unol ag egwyddorion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* Llywodraeth Cymru. Mae'n cyfarwyddo na ddylem wneud unrhyw elw na cholled o'n gweithgareddau rheoleiddio. Dim ond ein costau y caniateir i ni eu hadennill ac ni allwn drosglwyddo cymhorthdal o ffynonellau cyllid eraill.

Er ein bod yn cydnabod yr effaith y bydd y taliadau arfaethedig hyn yn ei chael ar rai busnesau ac unigolion, mae defnyddio ffynonellau cyllid eraill fel y pwrs cyhoeddus ehangach (Cymorth Grant) yn anghynaliadwy, ac nid yw'n briodol bellach i ariannu'r diffygion ffioedd rheoleiddiol hyn.

Cyn ein Hadolygiad Strategol o Godi Tâl, nid oedd y ffioedd a'r taliadau ar gyfer llawer o'n gwasanaethau wedi cynyddu yn unol â chwyddiant ac mewn rhai achosion nid oeddent wedi cael eu hadolygu ers blynyddoedd lawer. Mae ein gallu i redeg ein gwasanaethau wedi cael ei effeithio ymhellach gan y cynnydd mwy diweddar a digynsail mewn chwyddiant gan gyfrannu at yr argyfwng costau byw.

**Arbedion Effeithlonrwydd**

Fe ddywedoch chi:

- Mae'r rhagdybiaeth sy'n sail i'r cwestiwn yn awgrymu bod y gwasanaethau rheoleiddio a ddarperir gan CNC yn effeithlon, yn gost-effeithiol ac yn darparu gwerth am arian. Nid dyma brofiad ein haelodau sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddio CNC ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwn, ni chredwn ei bod yn deg i CNC drosglwyddo costau ei wasanaethau i'r rhai y mae'n eu rheoleiddio lle gellid cyflawni gwelliannau ac, felly, arbedion cost.
- ‘Mae 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' yn dweud y dylai sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus bob amser geisio rheoli eu costau fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. Fel arfer, dylid trosglwyddo effaith costau is i ddefnyddwyr trwy godi tâl is.
- Er mai nod y taliadau arfaethedig yw adennill costau CNC ym maes rheoleiddio safleoedd a ganiateir, credwn fod lle pellach i wireddu arbedion effeithlonrwydd drwy reoleiddio mwy clyfar. Er enghraifft, gallai gwneud mwy o ddefnydd o systemau rheoli presennol gweithredwyr sydd wedi’u dilysu’n allanol ryddhau adnoddau CNC a galluogi costau is o bosibl i gael eu gosod ar weithredwyr heb beryglu canlyniadau amgylcheddol neu gymdeithasol.

Ein hymateb:

Mae CNC wedi ymrwymo i wella ein prosesau yn barhaus gan eu gwneud mor syml ac effeithlon â phosibl, gan ddarparu gwasanaeth gwerthfawr a lleihau'r baich ar fusnes.

Er ein bod yn ceisio gwella ein ffyrdd o weithio yn barhaus, rydym wedi bod yn gwneud mwy gyda llai ers sawl blwyddyn sy'n cael effaith ar y gwasanaeth a ddarparwn.

Mae'r newidiadau hyn yn sicrhau bod ein taliadau yn adlewyrchu cost darparu ein gwasanaethau. Nid yw gwasanaethau CNC wedi cael eu hadennill yn ddigonol ac maent wedi bod o dan bwysau ariannol ers peth amser. Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar daliadau arfaethedig yn unol â chwyddiant a dim ond mewn meysydd sy'n gweithredu ar ddiffyg ariannol.

Mae ein taliadau cynhaliaeth a sut rydym yn eu cyfrifo yn rhan o raglen waith tymor hwy i adolygu'r holl daliadau. Mae hyn bellach ar y gweill yn dilyn ein Hadolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC) ar gyfer gweithgareddau trwyddedu, a ddaeth i ben yn 2023. Bydd adolygiad o'n lefelau gwasanaeth presennol yn rhan o'r adolygiad o berfformiad taliadau cynhaliaeth. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn edrych ar sut rydym yn blaenoriaethu gwiriadau cydymffurfio a byddwn yn ystyried yr awgrym y gallai systemau rheoli a wiriwyd yn allanol fod yn ffactor wrth bennu risg.

**Cynllunio ar gyfer yr hirdymor**

Fe ddywedoch chi:

- O ran yr egwyddorion codi tâl sef darparu gorwelion cynllunio tymor hwy lle bynnag y bo'n bosibl ac osgoi cylchoedd o dorri a chynyddu taliadau trwy reoli gwargedion a diffygion, mae'n ymddangos bod cynnydd y taliadau cynhaliaeth

blynyddol ar gyfer 2024-25 yn mynd yn groes i'r egwyddorion hyn. Mae'r cynnydd hwn yn ychwanegu cost annisgwyl i'n cyllidebu ar gyfer 2024-25 a chanlyniad hyn o ran cyflawni blaenoriaethau eraill cwsmeriaid gan y bydd yn her cyflawni arbedion effeithlonrwydd i wneud yn iawn am hynny ar fyr rybudd. Byddai cyfradd lyfnhau dros y blynyddoedd sy'n weddill o Gynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) (2020-25) a darpariaeth gynnar o newidiadau posibl yn AMP8 (2025-30) yn rhoi cyfle i ni ddatblygu a gweithredu mentrau arbed costau sy'n gwneud yn iawn am y cynnydd, gan osgoi pasio’r gost hon ymlaen, i bob pwrpas, i'n cwsmeriaid. Gallai arbedion o'r fath fod yn gysylltiedig â chynllun gwella cyflenwi gwasanaethau CNC, gan ein galluogi i gael mwy o sicrwydd ynghylch amseroedd cyflenwi trwyddedau o fewn ein hamseroedd cyflenwi ein hunain.

Ein hymateb:

Rydym wedi dilyn ein dulliau safonol o ymgynghori’n gyhoeddus ac yn achos y cynnydd arfaethedig o ran codi tâl cynhaliaeth flynyddol dŵr, byddem wedi tynnu sylw at ein bwriadau yn gynnar yn 2023/24 trwy ein Grŵp Ymgynghorol Talwyr Tâl cyn mynd yn fyw gyda'r ymgynghoriad ei hun. Yn ogystal, dylai fod yn arfer safonol wrth gynllunio senarios i ganiatáu ar gyfer pwysau chwyddiant flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Byddwn yn rhoi awgrymiadau o amserlenni tebygol adolygiadau cynhaliaeth manylach mewn da bryd i gynorthwyo gyda’r gwaith o gynllunio senarios ar gyfer y cyfnod AMP8. Rydym yn cynnal ymarfer blaenoriaethu i'r perwyl hwnnw.

### Lefelau gwasanaeth

Fe ddywedoch chi:

- Dylai taliadau olygu y gellir cyflawni lefel effeithiol o weithgarwch rheoleiddio yn y cyfundrefnau hynny gyda'r achosion mwyaf o ddiffyg cydymffurfio a niwed amgylcheddol.
- Rydym yn siomedig mai’r prif faen prawf y mae CNC fel petai’n ei ddefnyddio ar gyfer pennu taliadau rheoleiddio yw’r angen i sicrhau mantoli ariannol. Y man cychwyn ddylai fod lefel yr ymdrech reoleiddiol sydd ei hangen i sicrhau lefel uchel o gydymffurfiaeth a'r risgiau lleiaf posibl i'r amgylchedd ac iechyd pobl.
- Dylai CNC fod yn fwy rhagweithiol wrth fabwysiadu cyfundrefn reoleiddio sy'n seiliedig ar risg, lle mae ymdrech reoleiddiol yn canolbwyntio ar y safleoedd/trwyddedau sydd yn y perygl mwyaf o beidio â chydymffurfio. Dylai'r rhai sy'n gysylltiedig â chofnod cydymffurfio gwael dalu mwy, fesul trwydded, na'r rhai sydd â record dda.
- Er ein bod yn cefnogi'r angen am y cynnydd hwn fel y gall pob cyfundrefn gyrraedd pwynt adennill costau, rydym yn pryderu bod hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth bod y lefel bresennol o weithgarwch rheoleiddio yn ddigonol.
- Byddai'n fuddiol pe gellid darparu cynllun gwella cyflenwi gwasanaethau ar y cyd â'r ymgynghoriad i ddarparu'r eglurder hwn, ynghyd â dangos cynnydd o

ran dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd yn ei brosesau a'u gweithredu i gadw costau'r gwasanaethau hyn mor isel â phosibl.

- Mae angen i CNC ddarparu rhagor o wybodaeth i gyd-fynd ag ymgynghoriadau ar gynigion codi tâl er mwyn gallu cynnal asesiad effeithiol o'i gynigion. Yn benodol, dylai nodi'r lefelau presennol o ymdrech reoleiddiol a maint y diffyg cydymffurfio ym mhob cyfundrefn. Byddai hyn yn hwyluso asesiad o effeithiolrwydd pob cyfundrefn i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl, yn hytrach nag asesiad o’i iechyd ariannol yn unig.
- Mae CIWM Cymru yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn llawn ac yn ymwybodol o'r effaith y bydd costau ymgynghori Offeryn Bandio yn ei chael ar rai o'r meysydd cynhaliaeth. Mae CIWM yn gwerthfawrogi'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnydd ond yn gofyn na ddylai'r cynnydd hwn ymwneud yn unig ag archwilio'r sectorau ond y dylai wneud i'r newidiadau rheoli rheoleiddiol fod yn gyson.
- Mae CIWM Cymru hefyd yn awgrymu bod CNC yn ystyried ymweliadau safle ar gyfer personél trwyddedu i'w helpu i ddeall y sectorau y maent yn eu trwyddedu. Mae CIWM Cymru yn ymwybodol bod hyn yn debygol o gael ei gefnogi gan fusnesau.
- Byddai CIWM Cymru yn disgwyl i'r cynnydd mewn ffioedd ddarparu trosiant o geisiadau am drwydded i'r lefel statudol a chefnogi cadw personél trwyddedu profiadol. Dylai hyn fynd i'r afael â'r amser rhoi trwydded o ddau fis cyfredol.
- Ar hyn o bryd mae swyddogion ardal yn gwneud cyn-geisiadau heb fawr o wybodaeth a phan fydd y tîm trwyddedau yn cael canlyniadau gwahanol, oherwydd nad oes gan swyddogion ardal lawer o brofiad o geisiadau trwyddedu, os bydd y cynnydd yn mynd i’r afael â hyn, yna bydd CIWM yn gwbl gefnogol.
- Er ein bod ni (Cymdeithas Ailgylchu Coed ar ran ei haelodau) yn cytuno y dylai rheoleiddio trwyddedu gwastraff fod yn hunan-gyllidol, mae'r cynnydd sy'n cael ei gynnig yn sylweddol yn enwedig ar adeg pan fo oedi wrth drwyddedu a chymeradwyo Cynlluniau Atal Tân. A fydd y cynnydd hwn yn cyd-fynd â gwelliannau i’r gwasanaethau/amserlenni? Mae'r oedi hwn yn cael effaith fawr ar fusnesau y mae eu twf yn cael ei gyfyngu yn sgil prosesu poenus o araf gan y rheoleiddiwr.
- Mae gwasanaeth trwyddedu effeithlon ac amserol yn hanfodol i'n haelodau er mwyn sicrhau bod y diwydiant ailgylchu a gwastraff yn gallu buddsoddi a gwireddu ei gyfraniad llawn posibl tuag at gyflawni economi gylchol y DU ac uchelgeisiau sero net.
- Er ein bod yn cytuno â'r egwyddor bod CNC yn mynd ati i adennill ei gostau yn well, mae gennym rai pryderon ynghylch lefelau presennol y gwasanaeth a ddarperir gan CNC ar gyfer gweithgareddau trwyddedu. Roedd y costau chwyddiant a amlinellir uchod yn honni eu bod yn adlewyrchu'n fwy cywir lefel yr adnoddau yn CNC sydd eu hangen. Felly, disgwyliwn y bydd hyd yn oed mwy o graffu y gellir ei gyfiawnhau gan ein haelodau, a chan sectorau eraill, ar berfformiad trwyddedu CNC a disgwyliad y bydd lefelau gwasanaeth trwyddedu'n gwella
- Mae data o Adroddiad Rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) a thystiolaeth a roddwyd gan Brif Swyddog Gweithredol CNC, Clare Pillman, yn

awgrymu lefelau sylweddol o ddiffyg cydymffurfio mewn nifer o gyfundrefnau a nifer gymharol fach o drwyddedau'n cael eu gwirio am gydymffurfiaeth.

Ein hymateb:

Bwriad y taliadau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau ein bod yn cynnal cynlluniau codi tâl (mewn perthynas â thaliadau cynhaliaeth er enghraifft) cyn i ni gynnal adolygiad mwy manwl a chynhwysfawr o wasanaethau a chodi tâl. Rydym yn buddsoddi mewn gwaith i wella a diwygio ein gwasanaeth trwyddedu i'n helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

Rydym wedi cymhwyso'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', gan seilio'r taliadau ar ymdrech reoleiddiol. Yn ystod ein rhaglen Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC) roedd modd i ni addasu taliadau i adlewyrchu prosesau ymgeisio yn well sy'n cael eu dylanwadu gan risg a gweithgarwch.

Hyd yn hyn rydym wedi cael ein cyfyngu yn nyfnder yr adolygiad o daliadau cynhaliaeth y gallem eu gwneud. Fodd bynnag, ein bwriad yw cynnal adolygiadau mwy manwl o gynhaliaeth dros y blynyddoedd nesaf.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn edrych ar amlder a nifer y gwiriadau cydymffurfio rydym yn eu cynnal. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ein taliadau'n adlewyrchu'n well yr ymdrech gydymffurfio angenrheidiol a'r risg o niwed wrth nodi arbedion effeithlonrwydd perthnasol. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae modelau cost yn ystyried y risg a'r ymdrech sy'n ofynnol i reoleiddio'r gweithgaredd.

Mewn rhai cyfundrefnau, rydym eisoes yn defnyddio dull i addasu codi tâl cynhaliaeth yn seiliedig ar berfformiad gweithredwyr ac yn ystod adolygiadau codi tâl yn y dyfodol byddwn yn ystyried sut y gellir cymhwyso hyn ar draws meysydd eraill.

Nodwn anghysonderau a adroddwyd gan aelodau CIWM rhwng gwahanol ardaloedd a chanllawiau trwyddedu a byddwn yn ystyried yr awgrym o ymweliadau safle ar gyfer personél trwyddedu.

Byddwn yn ystyried cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r lefelau presennol o ymdrech reoleiddiol a maint y diffyg cydymffurfiaeth ym mhob cyfundrefn mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.

**Tryloywder**

Fe ddywedoch chi:

- 'Mae 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' hefyd yn nodi bod disgwyl i sefydliadau cyhoeddus beidio ag elwa ar draul defnyddwyr na gwneud colled a fydd yn golygu bod angen cymhorthdal gan drethdalwyr ac mae hyn yn gofyn am onestrwydd ynghylch amcanion polisi a thryloywder trylwyr er budd y cyhoedd. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi pwyslais ar fonitro perfformiad y gwasanaeth y codir tâl amdano.

- Atgyfnerthir egwyddorion tryloywder ac arbedion effeithlonrwydd yn y Cod Rheoleiddwyr sy'n nodi’n glir y dylai Rheoleiddwyr osgoi gosod beichiau rheoleiddio diangen trwy eu gweithgareddau rheoleiddio (yr ystod gyfan o opsiynau ac ymyriadau rheoleiddiol) a dylent asesu a ellid cyflawni canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebyg trwy ddulliau llai beichus.
- Mae'r Cod Rheoleiddwyr hefyd yn nodi, mewn perthynas â ffioedd a thaliadau, y dylai Rheoleiddwyr sicrhau bod eu dull o ymdrin â'u gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw ac yn egluro'n glir y sail ar gyfer eu cyfrifo.
- Dylai taliadau fod yn dryloyw, gyda'u cyfansoddiad yn cael cyhoeddusrwydd ar wefan CNC. Dylai fod yn glir mai dim ond y costau uniongyrchol hynny sy'n berthnasol i'r drwydded dan sylw, ac nid y costau mwy cyffredinol hynny sy'n gysylltiedig â CNC yn cyflawni swyddogaethau rheoleiddiol cysylltiedig megis monitro'r amgylchedd yn gyffredinol.
- Rydym yn falch o weld ymrwymiad gan CNC i gadw ffioedd a thaliadau cyffredinol ar gyfer 2024/25 yn ddigyfnewid i raddau helaeth yn dilyn y cynnydd sylweddol mewn costau a ddaeth i'r amlwg drwy’r Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC) y llynedd ar draws ystod eang o feysydd.
- Yn cytuno â'r egwyddor, ond does dim tabl mathemateg ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni dros amser, yn enwedig y fathemateg o ran y sylfaen gostau.
- Dylid cynnal adolygiad annibynnol llawn o drefn codi tâl CNC er mwyn sicrhau lefelau uwch o atebolrwydd a thryloywder. Dylai'r adolygiad nodi lle y gellir symleiddio systemau a phrosesau a lle y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd gyda'r nod o gadw costau mor isel â phosibl.
- Mae'n cymryd yn ganiataol bod y cyfrifwyr wedi gwneud eu mathemateg yn iawn.
- Mae CIWM Cymru yn gofyn am eglurhad o effaith adolygiad CNC o drwyddedau, gan dybio bod hyn ar ddod. Pa effaith fydd hyn yn ei chael ar gostau?

<u>Ein hymateb:</u>

Mae CNC wedi defnyddio egwyddorion adennill costau llawn yn unol â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* i bennu’r taliadau cais am drwydded arfaethedig.

Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn cyfarwyddo na ddylem wneud unrhyw elw na cholled o'n gweithgareddau rheoleiddio. Dim ond ein costau y caniateir i ni eu hadennill ac ni allwn drosglwyddo cymhorthdal o ffynonellau cyllid eraill.

Rydym wedi cyfrifo pob tâl drwy nodi'r gweithgareddau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â phennu pob math o drwydded/caniatâd, pa mor hir y maent yn ei gymryd a beth yw'r gost. Yna cymhwyswyd dyraniad teg a chymesur o gost gweithgareddau anuniongyrchol yn seiliedig ar lefel y gweithgaredd uniongyrchol. Credwn fod ein methodoleg yn gadarn ac yn cydymffurfio â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* ac egwyddorion rheoleiddio.

Mae ein taliadau cynhaliaeth blynyddol yn seiliedig ar risg ac ar hyn o bryd maent yn adlewyrchu lefelau ac adnoddau cyfredol y gwasanaeth.

Mae ein taliadau cynhaliaeth a sut rydym yn eu cyfrifo yn rhan o raglen waith tymor hwy sydd ar y gweill i adolygu'r holl daliadau ar ôl ein Hadolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC) ar gyfer gweithgareddau trwyddedu a ddaeth i ben yn 2023. Bydd adolygiad o'n lefelau gwasanaeth presennol yn rhan o'r adolygiad o daliadau cynhaliaeth. Rydym yn cytuno y dylai'r taliadau hyn adlewyrchu risg amgylcheddol a pherfformiad amgylcheddol da.

Mae CNC wedi darparu gwybodaeth fanwl am y fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo taliadau mewn ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth. Rydym yn fodlon ein bod wedi bod yn dryloyw yn ein methodoleg. Fel y nodwyd yn flaenorol, nodir arbedion effeithlonrwydd fel rhan o'r broses modelu taliadau.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o ffioedd a thaliadau CNC o fewn cwmpas yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl yn 2023 gan Uned Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru dan oruchwyliaeth Dirprwy Gyfarwyddwr, Archwilio, Sicrwydd a Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru. Roedd yr adolygiad mewn ymateb i sicrwydd a geisiwyd ynghylch tystiolaeth a methodoleg sylfaenol cynigion Adolygiad Strategol CNC o Godi Tâl. I grynhoi, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod CNC wedi dilyn methodoleg gadarn i gefnogi'r cynigion codi tâl o fewn yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl. Felly, nid ydym o’r farn bod unrhyw werth mewn cynnal adolygiad annibynnol arall a'n nod yw bwrw ati i adolygu ein taliadau cynhaliaeth blynyddol yn fanylach dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

# Ystyriaethau ynglŷn â’r Gymraeg

## A allai'r cynigion effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

**Dim ymateb.**

## A oes modd i ni gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg neu roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

**Dim ymateb.**

## A oes yna unrhyw agweddau ar y cynigion a allai roi pobl dan anfantais wrth ddefnyddio'r Gymraeg?

**Dim ymateb.**

## Ydych chi'n credu bod y cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Fe ddywedoch chi:

- Ein barn gref yw bod iaith Gymraeg sy’n ffynnu mewn ardaloedd gwledig yn cael ei hategu gan ffermydd Cymreig ffyniannus; bydd unrhyw gynigion sy'n gwanhau'r sector ffermio yn y pen draw yn gwanhau ein hiaith a'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl a chenedl.
- Rydym yn parhau i bryderu bod CNC, drwy ei drefn codi tâl, wedi methu â chydnabod yr effeithiau negyddol ar ffermydd teuluol Cymru a phwysigrwydd sylfaenol diwydiant ffermio ffyniannus ac economaidd hyfyw yng Nghymru i gynnal y Gymraeg.

Ein hymateb:

Rydym yn cydnabod y pwyntiau a wnaed uchod o ran y Gymraeg.

Rydym hefyd yn rhannu balchder wrth gefnogi'r Gymraeg, gan gydnabod sut mae'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl, ac yn ein cysylltu â'n hadnoddau naturiol a'n cymunedau.

Rydym yn parhau i gefnogi uchelgais Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i greu cyfleoedd a meithrin hyder yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad, gan gefnogi ymgysylltu yn Gymraeg rhwng cydweithwyr yn ogystal â gyda phartneriaid a chwsmeriaid.

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai busnesau, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol ehangach o ganlyniad i chwyddiant a'r costau byw cynyddol. Fodd bynnag, byddai methu â rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu adennill costau llawn yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni ein dyletswydd reoleiddio, atal llygredd a chyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

## Y Camau Nesaf

Ar ôl ystyried yr adborth a dderbyniwyd, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r taliadau a gynigir.

Rydym yn bwriadu gweithredu'r taliadau wedi'u diweddaru ar 1 Ebrill 2024 yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

## Atodiad 1 - Cynigion ymgynghori Codi Tâl

Gellir dod o hyd i'r cynigion manwl fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad dan y dolenni canlynol.

Ymgynghoriad ar ein ffioedd a'n taliadau rheoleiddio ar gyfer 2024/2025 - Gofod Dinasyddion Cyfoeth Naturiol Cymru - Gofod Dinasyddion (cyfoethnaturiol.cymru)

Ymgynghoriad ar ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2024/25 - Cyfoeth Naturiol Cymru Gofod Dinasyddion - Gofod_Dinasyddion (cyfoethnaturiol.cymru)

## Atodiad 2 –Ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad

Sylwadau ysgrifenedig yn llawn yn y Gofod Dinasyddion

**A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu darparu mewn perthynas â'n cynigion codi tâl COMAH arfaethedig?**

| |
|---|
| Nodwn eich bod yn aros am gadarnhad o'r dull awdurdod cymwys mewn perthynas â'ch cynigion COMAH. Sut y bydd y cynigion yn cael eu monitro a'u cymhwyso ar ôl eu cadarnhau a pha ddisgwyliad sydd yno y bydd y cynnig codi tâl yn ddigon i adennill costau yn llawn neu'n rhannol? |

| |
|---|
| Sut mae'r £161 yr awr yn cael ei gyfrif?<br>Nid oes tabl o ddata i ddeall mathemateg y swm yma? ...sut y gall cost CNC fod mor hurt o uchel i godi tâl am hynny a'i alw'n adennill costau?<br>Mae angen i'r cyfrifwyr roi'r gorau i gyfrif syml a chael costau sefydlog ac amrywiol i lawr, a heb weld o ble mae'r £161 hwnnw'n deillio, mae'n anodd iawn dweud a yw'n deg ai peidio, ond mae'n ymddangos yn uchel iawn.<br>I rannu, rwy'n gweithio yn y sector preifat ac yn codi tâl o £150+TAW yr awr am wasanaeth proffesiynol, gydag elw gros iach yn cael ei gynnwys yn y pris hwnnw. Dyna'r pris hyd yn oed nawr gyda chwyddiant cyfleustodau wedi cynyddu, sydd wedi lleihau'r elfen elw gros honno fymryn.<br>Darllenwch Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i CNC adennill costau gwasanaethau rheoleiddio yn llawn gan y rhai a reoleiddiwn, yn hytrach na thrwy drethiant cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gweithio. Er ei fod yn fodel gwahanol (h.y., wedi'i breifateiddio), cymerwch olwg ar Ymgymerwyr Dŵr, byddant yn talu'r dirwyon oherwydd bod hynny'n rhatach na gwneud y gwaith cyfalaf ar gyfer WwTW.<br>Os yw'r cyhoedd eisiau amgylchedd hyfryd, mae'n rhaid iddynt dalu amdano. Ac o dan egwyddor y llygrwr sy'n talu, ni ddylai CNC ddirwyo cwmnïau (lle nad yw cwsmeriaid yn wynebu codiad mewn prisiau oherwydd y dirwyon), a dylai cyfarwyddwyr cwmnïau unigol sy'n cael eu diswyddo neu'n wynebu gwarth fod yn bersonol atebol am y niwed a wneir tra'u bod nhw wrth y llyw (h.y., cyfarwyddwyr y cwmnïau dŵr). |

**A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu darparu mewn perthynas â'n cynigion codi tâl trwyddedu rhywogaethau arfaethedig?**

Tybiwn mai dim ond diweddariad yw'r cynigion ar y taliadau trwyddedu rhywogaethau a gyflwynwyd drwy eich rhaglen Adolygiad Strategol o Godi Tâl a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol ac y bydd unrhyw hepgoriadau a nodir trwy'r rhaglen honno yn dal i fod yn eu lle heb unrhyw newidiadau.

Rydym yn ymwybodol nad yw rhai gweithgareddau cadwraeth y mae angen i’n haelodau gael trwyddedau rhywogaethau ar eu cyfer wedi'u cynnwys o dan yr hepgoriad cadwraeth lle mae prosiectau hefyd yn gwneud elw o elfen o weithgarwch y prosiect, er mai prif bwrpas y prosiect yw cadwraeth. Hoffem weld mwy o eglurder ac arweiniad ynghylch pryd na fydd yr hepgoriad ar gyfer cadwraeth, ymchwil wyddonol ac addysg yn berthnasol o bosibl. Dylai'r broses ymgeisio fod yn fwy tryloyw, a chredwn y dylai'r hepgoriad fod yn berthnasol i unrhyw brosiect y mae cadwraeth yn brif bwrpas iddo.

Mae'r cyfraddau codi tâl presennol yn annheg gan eu bod yn seiliedig ar statws deiliad tŷ neu ddatblygiad lleol. Mae hyn yn golygu y gall tŷ ddyblu o ran maint a thalu dim, ond yn achos trawsnewid ysgubor fach rhaid talu bron i £1000.

Mae'r cyfraddau codi tâl hefyd yr un fath ar gyfer ystlum unigol ag ydyw ar gyfer cytref famolaeth fawr.

Oni allai Cymru gyflwyno trwydded clwydfan fach fel yn Lloegr?

Ar hyn o bryd, yr union bobl rydym yn ceisio eu haddysgu ac yn disgwyl iddynt ofalu am ystlumod yn y dyfodol yw'r rhai sy'n cael eu cosbi fwyaf.

Ni fu unrhyw welliannau i'r gwasanaeth ers codi tâl.

Mae'n ymddangos bod y taliadau'n cael eu pwysoli'n fawr tuag at ddatblygiadau mwy heb unrhyw gonsesiynau ar gyfer rhai llai o faint lle mae cyllidebau'n aml yn dynn iawn.

Mae codi £133 am adnewyddu trwydded a roddwyd yn flaenorol pan nad oes unrhyw ddiwygiadau, newidiadau neu wybodaeth ychwanegol yn warthus.

Deallaf y rhesymeg dros godi'r tâl am gais newydd o ystyried yr amser prosesu ychwanegol ond ar gyfer adnewyddu mae'n ymddangos fel crocbris. Gwaethygir hyn gan yr amseroedd ymateb araf. Fe gymerodd dros bythefnos i CNC gydnabod fy mod wedi talu ac anfon unrhyw fath o dderbynneb ataf ar gyfer fy nhrwydded flaenorol.

Rwy’n deall yr angen i ychwanegu cost chwyddiant; fodd bynnag, mae cost trwydded tynnu lawn yn ormodol, ac yn sicr mae'n rhaid ei bod yn cynnwys elfen elw fawr, y tu hwnt i adennill costau?!

Rwy'n ystyried datblygu busnes newydd ac eisiau gwneud pethau'n iawn o'r cychwyn cyntaf. Er, mae £6,327 am drwydded tynnu lawn + £917 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd + £1,000 am hysbysebu yn £8,244 sy'n llawer rhy uchel.

Yn fy marn bersonol i, credaf y dylid ei haenu i gefnogi datblygu cynaliadwy, gydag endidau mwy/busnesau masnachol yn talu ffioedd uwch, yn gymharol, er mwyn i geisiadau llai fod yn rhatach wedyn. Neu gostau ymlaen llaw is i gefnogi pobl, yna codi'r ffioedd gorfodi a thaliadau am dorri rheolau (lle bo hynny'n rhesymol).

Mae cyn-ymgeisio yn cael ei ddarparu sy'n wych.

Ar wahân i dynnu dŵr yr wyf yn darllen / dysgu amdano, dydw i ddim yn gwybod digon am y maes hwn i gynnig unrhyw beth o werth.

**A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu darparu mewn perthynas â'n cynnydd arfaethedig ar gyfer cyfundrefnau sydd â diffyg i ymdopi â chwyddiant a mantoli eu cyfrifon?**

Mae CIWM Cymru yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn llawn ac yn ymwybodol o'r effaith y bydd costau ymgynghori'r Offeryn Bandio yn ei chael ar rai o'r meysydd cynhaliaeth. Mae CIWM yn gwerthfawrogi'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnydd ond yn gofyn na ddylai'r cynnydd hyn ymwneud yn unig ag archwilio'r sectorau ond y dylai wneud i'r newidiadau rheoli rheoleiddiol fod yn gyson.

Byddai CIWM Cymru yn disgwyl i'r cynnydd mewn ffioedd ddarparu trosiant o geisiadau am drwydded i'r lefel statudol a chefnogi cadw personél trwyddedu profiadol. Ar hyn o bryd mae swyddogion ardal yn gwneud cyn-geisiadau heb fawr o wybodaeth a phan fydd y tîm trwyddedau yn cael canlyniadau gwahanol, oherwydd nad oes gan swyddogion ardal lawer o brofiad o geisiadau trwyddedu, os bydd y cynnydd yn mynd i'r afael â hyn, yna bydd CIWM yn gwbl gefnogol. Dylai hyn fynd i'r afael â'r amser rhoi trwydded dau fis cyfredol.

Mae CIWM Cymru yn ymwybodol y bydd y cynnydd hwn yn effeithio ar weithredwyr llai, a gallai orfodi rhai i gau eu busnesau.

Mae CIWM Cymru yn gofyn am eglurhad o effaith adolygiad CNC o drwyddedau, gan dybio bod hyn ar ddod. Pa effaith fydd hyn yn ei chael ar gostau?

Mae CIWM Cymru hefyd yn awgrymu bod CNC yn ystyried ymweliadau safle ar gyfer personél trwyddedu i'w helpu i ddeall y sectorau y maent yn eu trwyddedu. Mae CIWM Cymru yn ymwybodol bod hyn yn debygol o gael ei gefnogi gan fusnesau.

Dydw i ddim yn gweld sut rydych chi wedi cyfrifo'r ffioedd adennill hyn pan fydd yn costio'r un peth i brosesu cais newydd cyfan ag i roi stamp rwber ar adnewyddiad. Dydy o ddim yn ymddangos fel petai'n adio i fyny...

O ran yr egwyddorion codi tâl sef darparu gorwelion cynllunio tymor hwy lle bynnag y bo'n bosibl ac osgoi cylchoedd o dorri a chynyddu taliadau trwy reoli gwargedion a diffygion, mae'n ymddangos bod cynnydd y taliadau cynhaliaeth blynyddol ar gyfer 2024-25 yn mynd yn groes i'r egwyddorion hyn. Mae'r cynnydd hwn yn ychwanegu cost annisgwyl i'n cyllidebu ar gyfer 2024-25 a chanlyniad hyn o ran cyflawni blaenoriaethau eraill cwsmeriaid gan y bydd yn her cyflawni arbedion effeithlonrwydd i wneud yn iawn am hynny ar fyr rybudd. Byddai cyfradd lyfnhau dros y blynyddoedd sy'n weddill o Gynllun Rheoli Asedau 7 (AMP7) (2020-25) a darpariaeth gynnar o newidiadau posibl yn AMP8 (2025-30) yn rhoi cyfle i ni ddatblygu a gweithredu mentrau arbed costau sy'n gwneud yn iawn am y cynnydd, gan osgoi pasio'r gost hon ymlaen, i bob pwrpas, i'n cwsmeriaid. Gallai arbedion o'r fath fod yn gysylltiedig â chynllun gwella cyflenwi gwasanaethau CNC, gan ein galluogi i gael mwy o sicrwydd ynghylch amseroedd cyflenwi trwyddedau o fewn ein hamseroedd cyflenwi ein hunain.

Er ein bod ni (Cymdeithas Ailgylchu Coed ar ran ei haelodau) yn cytuno y dylai rheoleiddio trwyddedu gwastraff fod yn hunan-gyllidol, mae'r cynnydd sy'n cael ei gynnig yn sylweddol yn enwedig ar adeg pan fo oedi wrth drwyddedu a chymeradwyo Cynlluniau Atal Tân. A fydd y cynnydd hwn yn cyd-fynd â gwelliannau i'r gwasanaethau/amserlenni? Mae'r oedi hwn yn cael effaith fawr ar fusnesau y mae eu twf yn cael ei gyfyngu yn sgil prosesu poenus o araf gan y rheoleiddiwr.

Mae gwasanaeth trwyddedu effeithlon ac amserol yn hanfodol i'n haelodau er mwyn sicrhau bod y diwydiant ailgylchu a gwastraff yn gallu buddsoddi a gwireddu ei gyfraniad llawn posibl tuag at gyflawni economi gylchol y DU ac uchelgeisiau sero net.

Er ein bod yn cytuno â'r egwyddor bod CNC yn mynd ati i adennill ei gostau yn well, mae gennym rai pryderon ynghylch lefelau presennol y gwasanaeth a ddarperir gan CNC ar gyfer gweithgareddau trwyddedu. Roedd y costau chwyddiant a amlinellir uchod yn honni eu bod yn adlewyrchu'n fwy cywir lefel yr adnoddau yn CNC sydd eu hangen. Felly, disgwyliwn y bydd hyd yn oed mwy o graffu y gellir ei gyfiawnhau gan ein haelodau, a chan sectorau eraill, ar berfformiad trwyddedu CNC a disgwyliad y bydd lefelau gwasanaeth trwyddedu'n gwella.

Er mai nod y taliadau arfaethedig yw adennill costau CNC wrth reoleiddio safleoedd a drwyddedir, credwn fod yna le pellach i wireddu arbedion effeithlonrwydd drwy reoleiddio doethach. Er enghraifft, gallai gwneud mwy o ddefnydd o systemau rheoli presennol gweithredwyr sydd wedi'u gwirio'n allanol ryddhau adnoddau CNC a gallai o bosibl olygu bod modd gorfodi costau is ar weithredwyr heb gyfaddawdu canlyniadau amgylcheddol neu gymdeithasol.

Yn cytuno â'r egwyddor, ond does dim tabl mathemateg ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni dros amser, yn enwedig y fathemateg o ran y sylfaen gostau.

Mae'n cymryd yn ganiataol bod y cyfrifwyr wedi gwneud eu mathemateg yn iawn.

Os ydynt o'r farn bod £161 yr awr yn rhesymol yr awr ar gyfer adennill costau (a faint o oriau sydd eu hangen fesul achos?), maent yn gweithredu cyfrif syml ac nid ydynt yn chwilio am arbedion cost, na chyfleoedd i gynyddu incwm (h.y., gosod paneli solar ar adeiladau, efallai, i leihau gorbenion sefydlog, os yw CNC yn gorfod talu cyfraddau arwynebedd llawr, a ellid rhoi'r adeilad yn enw elusen a bod CNC yn rhentu'r adeilad yn ôl am rent hedyn pupur, mae'n siŵr bod digon o opsiynau i ostwng costau a chynyddu incwm).

**Dŵr Cymru**

**Ymgynghoriad ar Ffioedd a Thaliadau Rheoleiddio Arfaethedig ar gyfer 2024/2025**

Diolch am ymgynghori ar ffioedd a thaliadau rheoleiddio CNC ar gyfer 2024/2025. Daw'r sylwadau hyn gan Dŵr Cymru Cyfyngedig, yr ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth statudol sy'n cyflenwi dros dair miliwn o bobl yng Nghymru a rhai rhannau cyfagos o Loegr. Rydym yn eiddo i Glas Cymru, cwmni nid-er-elw un pwrpas heb unrhyw gyfranddalwyr. Rydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i'n cwsmeriaid trwy gyflenwi eu dŵr yfed ac yna'n cludo i ffwrdd ac yn delio â'u dŵr gwastraff. I'r perwyl hwn, rydym yn gwneud cyfraniad mawr i iechyd y cyhoedd ac at amddiffyn amgylchedd Cymru. Mae ein gwasanaethau hefyd yn hanfodol ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy yng Nghymru.

Rydym yn falch o weld ymrwymiad gan CNC i gadw ffioedd a thaliadau cyffredinol ar gyfer 2024/25 yn ddigyfnewid i raddau helaeth yn dilyn y cynnydd sylweddol mewn costau a ddaeth i'r amlwg drwy'r Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC) y llynedd ar draws ystod eang o feysydd sy'n effeithio ar Dŵr Cymru.

Mae'n galondid i ni fod y rhaglen Adolygiad Strategol o Godi Tâl wedi cael ei harwain gan eich egwyddorion codi tâl, yr ydym yn eu cefnogi'n llawn. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd y newidiadau i'r ffioedd a'r taliadau yn yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl yn cefnogi gwelliannau yn lefelau'r gwasanaeth i gwsmeriaid y byddwn yn ei dderbyn. Byddai'n fuddiol pe gellid darparu cynllun gwella cyflenwi gwasanaethau ar y cyd â'r ymgynghoriad i ddarparu'r eglurder hwn, ynghyd â dangos cynnydd o ran dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd yn ei brosesau a'u gweithredu i gadw costau'r gwasanaethau hyn mor isel â phosibl.

Mae ein hymatebion i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr ymgynghoriad wedi'u cyflwyno drwy borth yr Arolwg Ar-lein.

Yn ogystal â'n hymateb i gwestiwn chwech yn yr arolwg ar-lein, hoffem ychwanegu ein bod yn cefnogi'n fawr yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu ac, ar y sail hon, nid yw ond yn deg bod unrhyw wasanaethau rheoleiddio penodol a ddarperir gan CNC yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan y rhai sy'n elwa ar y gwasanaethau trwyddedu hynny. Dylai taliadau fod yn dryloyw, gyda'u cyfansoddiad yn cael cyhoeddusrwydd ar wefan CNC. Dylai fod yn glir mai dim ond y costau uniongyrchol hynny sy'n berthnasol i'r drwydded dan sylw, ac nid y costau mwy cyffredinol hynny sy'n gysylltiedig â CNC yn cyflawni swyddogaethau rheoleiddiol cysylltiedig megis monitro'r amgylchedd yn gyffredinol.

---

**Cyswllt Amgylchedd Cymru - Ffioedd a Thaliadau Rheoleiddio CNC**

Rhagfyr 2023

**1. Ydych chi'n ymateb fel unigolyn, busnes neu sefydliad?**

Sefydliad

**2. Er mwyn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'ch safbwynt a'r effeithiau ar y sector, nodwch ba sectorau busnes sy'n berthnasol i chi:**

Rhwydwaith o gyrff anllywodraethol amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth yw Amgylchedd Cymru, sy'n gweithio ar bolisi ac eiriolaeth amgylcheddol Cymru.

**3. A oes gennych drwydded neu ganiatâd a roddwyd gan CNC ar hyn o bryd?**

Mae sawl sefydliad sy'n aelodau o WEL yn dirfeddianwyr ac yn rheolwyr ac mae ganddynt amrywiaeth o drwyddedau CNC. At hynny, mae gan nifer o aelod-sefydliadau WEL drwyddedau trin rhywogaethau a thrwyddedau unigol eraill a gyhoeddwyd gan CNC mewn perthynas â'u gweithgareddau cadwraeth.

**4. Er mwyn gallu deall eich atebion, byddai'n ddefnyddiol i ni wybod ble rydych chi'n byw neu'n gweithio. Pa ardal ddaearyddol sy'n berthnasol i chi?**

Mae WEL yn cwmpasu Cymru gyfan.

**5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddio CNC ddylai dalu amdanynt yn hytrach na'r trethdalwr neu'r talwyr taliadau eraill?**

Cytuno

**6. A ydych chi'n credu bod dewisiadau gwell o ran sut mae CNC yn bwriadu ariannu ei weithgareddau rheoleiddio?**

Mae WEL yn cytuno â'r egwyddor gyffredinol mai defnyddwyr gwasanaethau rheoleiddio CNC fel arfer ddylai dalu amdanynt gan fod hyn yn gyfraniad pwysig i'r egwyddor "y llygrwr sy'n talu". Rydym yn gweld anghysondeb yn hyn o beth, bod y gost o wirio cydymffurfiaeth â rheoliadau amaethyddol yn cael ei dalu gan y trethdalwr, trwy grant Llywodraeth Cymru i CNC.

Mae'n siomedig bod dirwyon sy'n deillio o waith gorfodi CNC yn cael eu talu i Drysorlys EF. Ymddengys bod hyn yn rhoi amgylchedd Cymru dan anfantais o'i gymharu â'r sefyllfa yn Lloegr. Y llynedd, cyhoeddodd y Canghellor y byddai dirwyon sy'n deillio o weithgarwch gorfodi Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn erbyn cwmnïau dŵr yn cael eu hail-fuddsoddi mewn cynlluniau sydd o fudd i'r amgylchedd naturiol. Credwn y dylai polisi tebyg fod ar waith yng Nghymru, gyda dirwyon am droseddau amgylcheddol yn cael eu defnyddio i wella'r amgylchedd yng Nghymru, yn hytrach na chael eu talu i'r Trysorlys

Mae rhai gweithgareddau sydd angen trwydded/caniatâd yn cael eu cynnal er budd amgylcheddol yn unig, ac am gost uniongyrchol a dim budd masnachol i unigolion a sefydliadau, gan gynnwys yr elusennau rydym yn eu cynrychioli. Mae gwaith o'r fath fel arfer yn hyrwyddo nodau CNC ei hun. O dan yr amgylchiadau hyn, credwn ei bod yn briodol i'r trethdalwr ysgwyddo rhywfaint neu'r cyfan o gostau CNC, gan fod hyn yn darparu budd cyhoeddus ehangach. Yn hyn o beth, credwn y dylai'r hepgoriadau presennol mewn perthynas â thrwyddedu rhywogaethau aros (serch gyda chanllawiau mwy tryloyw), fel bod y trethdalwr yn parhau i ysgwyddo'u costau.

**7. Ar ôl ystyried ein cynigion a'n gwybodaeth ategol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion codi tâl ar gyfer COMAH?**

Cytuno

**8. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu darparu mewn perthynas â'n cynigion codi tâl COMAH arfaethedig?**

Nac oes

**9. Ar ôl ystyried ein cynigion a'n gwybodaeth ategol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion codi tâl ar gyfer trwyddedu rhywogaethau?**

Cytuno

**10. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu darparu mewn perthynas â'n cynigion codi tâl trwyddedu rhywogaethau arfaethedig?**

Rydym yn ymwybodol nad yw rhai gweithgareddau cadwraeth y mae angen i'n haelodau gael trwyddedau rhywogaethau ar eu cyfer wedi'u cynnwys o dan yr hepgoriad cadwraeth lle mae prosiectau hefyd yn gwneud elw o elfen o weithgarwch y prosiect, er mai prif bwrpas y prosiect yw cadwraeth. Hoffem weld mwy o eglurder ac arweiniad ynghylch pryd na fydd yr hepgoriad ar gyfer cadwraeth, ymchwil wyddonol ac addysg yn berthnasol o bosibl. Dylai'r broses ymgeisio fod yn fwy tryloyw, a chredwn y dylai'r hepgoriad fod yn berthnasol i unrhyw brosiect y mae cadwraeth yn brif bwrpas iddo.

**11. Ar ôl ystyried ein cynigion a'n gwybodaeth ategol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n hawgrymiadau am gynnydd ar gyfer cyfundrefnau sydd â diffyg i ymdopi â mantoli eu cyfrifon?**

Cytuno

**12. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu darparu mewn perthynas â'n cynnydd arfaethedig ar gyfer cyfundrefnau sydd â diffyg i ymdopi â chwyddiant a mantoli eu cyfrifon?**

Er ein bod yn cefnogi'r angen am y cynnydd hwn fel y gall pob cyfundrefn gyrraedd pwynt adennill costau, rydym yn pryderu bod hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth bod y lefel bresennol o weithgarwch rheoleiddio yn ddigonol. Yng ngoleuni adroddiad rheoleiddio diweddaraf CNC (2022), mae'n amlwg bod lefelau sylweddol o ddiffyg cydymffurfio mewn nifer o gyfundrefnau, ac mai dim ond cyfran fach o drwyddedau sy'n cael eu gwirio i weld eu bod yn cydymffurfio. Er enghraifft, allan o fwy na 2000 o drwyddedau adnoddau dŵr, dim ond 113 a aseswyd, gyda 56% ddim yn cydymffurfio, ar gyfer gollyngiadau dŵr, aseswyd 474, ac roedd nifer dychrynllyd, 75%, ddim yn cydymffurfio.

Mae'r data hwn yn awgrymu bod angen i CNC gynyddu ei weithgarwch rheoleiddio yn y sectorau hyn. Cefnogir hyn gan dystiolaeth gan Brif Swyddog Gweithredol CNC, Clare Pillman. Yng ngwrandawiad diweddar y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig (C163), dywedodd mai arian oedd y rheswm na ellir monitro asedau'r DCWW yn fwy trylwyr. Mae'n ymddangos bod hyn yn arwydd clir, ar gyfer trwyddedau rhyddhau dŵr o leiaf, bod angen cynnydd mewn termau real i dalu am staff ac offer ychwanegol i fonitro asedau DCWW yn ddigonol.

Mae WEL yn siomedig nad oes ymgais yn y cynigion codi tâl hyn i gynyddu, mewn termau real, daliadau fel y gellir cynnal lefel effeithiol o weithgarwch rheoleiddio yn y cyfundrefnau hynny sydd â'r niferoedd uchaf o ddiffyg cydymffurfio a niwed amgylcheddol.

Yn gyffredinol, mae WEL yn credu bod angen i CNC ddarparu rhagor o wybodaeth i gyd-fynd ag ymgynghoriadau ar gynigion codi tâl er mwyn gallu cynnal asesiad

effeithiol o'i gynigion. Yn benodol, dylai nodi'r lefelau presennol o ymdrech reoleiddiol a maint y diffyg cydymffurfio ym mhob cyfundrefn. Byddai hyn yn hwyluso asesiad o effeithiolrwydd pob cyfundrefn i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl, yn hytrach nag asesiad o'i iechyd ariannol yn unig. Rydym yn ehangu ar hyn mewn dau bwynt isod:

1. Mae WEL yn siomedig mai'r prif faen prawf y mae CNC fel petai'n ei ddefnyddio ar gyfer pennu taliadau rheoleiddio yw'r angen i sicrhau mantoli ariannol. Credwn mai'r man cychwyn ar gyfer pennu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer trefn reoleiddio ddylai fod "pa lefel o ymdrech reoleiddiol sydd ei hangen i sicrhau lefel uchel o gydymffurfiaeth a'r risgiau lleiaf posibl i'r amgylchedd ac i iechyd pobl?".

   Dim ond pan fydd y lefel hon o ymdrech reoleiddiol wedi'i hasesu y gellir pennu'r pwynt adennill arian. Heb wybodaeth ar faint yr ymdrech reoleiddio a maint y diffyg cydymffurfio, mae'n anodd dweud a yw'r cynnydd arfaethedig yn ddigonol, er fel y nodwyd uchod, byddai datganiad gan Brif Swyddog Gweithredol CNC yn awgrymu nad ydynt.

2. Mae WEL yn credu y dylai CNC fod yn fwy rhagweithiol wrth fabwysiadu cyfundrefn reoleiddio sy'n seiliedig ar risg, lle mae ymdrech reoleiddiol yn canolbwyntio ar y safleoedd/trwyddedau sydd yn y perygl mwyaf o beidio â chydymffurfio. Yna dylid adlewyrchu hyn yn y taliadau am drwyddedau unigol. Dylai'r rhai sy'n gysylltiedig â chofnod cydymffurfio gwael dalu mwy, fesul trwydded, na'r rhai sydd â record dda. Er enghraifft, dylai gwaith carthffosiaeth gyda chofnod gwael o gydymffurfio dalu mwy na safle tebyg gyda chofnod da, er mwyn galluogi CNC i gynnal mwy o wiriadau monitro a chydymffurfiaeth. Er bod y dull hwn yn cael ei weithredu mewn rhai sectorau, nid yw'n weithredol mewn eraill, yn fwyaf nodedig, gollyngiadau dŵr a thynnu dŵr.

---

Aeth yr ymateb a gafwyd gan NFU Cymru y tu hwnt i gwmpas ymgynghoriad 2024/25. Rydym wedi ateb y pwyntiau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn yma a byddwn yn ymateb ar wahân i NFU Cymru mewn perthynas â'u sylwadau penodol ar ein Hadolygiad Strategol o Godi Tâl blaenorol.

**Ymateb NFU Cymru: Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar ei ffioedd a'i daliadau rheoleiddio ar gyfer 2024/25**

Mae NFU Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar ei ffioedd a'i daliadau rheoleiddio ar gyfer 2024/25.

Mae NFU Cymru yn hyrwyddo ffermio yng Nghymru ac yn cynrychioli amaethwyr ledled Cymru ac ar draws pob sector. Gweledigaeth NFU Cymru yw sicrhau sector ffermio cynhyrchiol, proffidiol a blaengar sy'n cynhyrchu bwyd byd-enwog sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd mewn amgylchedd a thirwedd sy'n darparu cynefinoedd i'n natur ffynnu. Mae bwyd a ffermio yng Nghymru yn darparu buddion economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol i holl bobl Cymru gan gyflawni ein huchelgais ar gyfer amaethyddiaeth sero net erbyn 2040.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y diwydiant ffermio yng nghefn gwlad Cymru. Busnesau ffermio Cymru yw asgwrn cefn economi wledig Cymru, echelin ein

cymunedau gwledig. Y cynhwysion crai a gynhyrchwn yw conglfaen y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, sy’n werth £8 biliwn. Dyma gyflogwr mwyaf Cymru ac mae’n cyflogi dros 229,000 o bobl.

Mae amaethwyr Cymru hefyd yn chwarae rhan allweddol yn cynnal a gwella ein hamgylchedd naturiol – ased allweddol Cymru. Mae gweithgarwch ffermio yn cefnogi amrywiaeth eang o rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau, yn darparu ystod o wasanaethau ecosystem gan gynnwys lliniaru llifogydd, dal a storio carbon, lliniaru newid yn yr hinsawdd; ac yn darparu'r cefndir godidog i sector twristiaeth a hamdden Cymru, sy’n werth tua £2.5bn bob blwyddyn.

Yn gyffredinol, mae ffermio yng Nghymru yn gwneud cyfraniad unigryw i les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a grynhoir yn Atodiad 1.

Nodwn fod CNC yn ymgynghori ar eu ffioedd a'u taliadau rheoleiddio ar gyfer 2024/25 ac yn cynnig cynnal, cyn belled ag y bo modd, eu ffioedd rheoleiddio presennol gyda chynnydd o 5% yn cael ei gynnig ar gyfer Tâl Uned Safonol Adnoddau Dŵr (SUC); gosodiadau; Gwastraff ar y safle; ac Ansawdd Dŵr. Cynigir y bydd nifer o gyfundrefnau eraill yn destun cynnydd chwyddiant a ragwelir yn 3.1%.

Mae diddordeb NFU Cymru, a ffocws yr ymateb hwn, mewn perthynas â newidiadau arfaethedig CNC i'r cyfundrefnau codi tâl sy'n berthnasol i amaethyddiaeth.

**Tirwedd Economaidd Ffermio**

Mae ffermio yng Nghymru yn gweithredu mewn cyfnod o ansicrwydd dwys. Mae newid y polisi amaethyddol a threfniadau masnachu ynghyd â 'chwyddiant amaethyddol' a'r angen i fynd i'r afael ag ystod o heriau amgylcheddol yn golygu bod y sector ffermio yn edrych tua’r system reoleiddio i gefnogi datblygiad busnesau fferm cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae busnesau fferm Cymru yn parhau i weithredu mewn cyfnod digynsail, mae digwyddiadau byd-eang wedi arwain at gynnydd enfawr mewn costau cynhyrchu, i fyny tua 40% ers 2019. Cynnydd sydd hyd yn oed wedi bwrw chwyddiant prisiau bwyd manwerthu i'r cysgodion gan roi llawer o systemau cynhyrchu o dan bwysau, fel yr amlygwyd gan silffoedd gwag archfarchnadoedd yn achos ystod o nwyddau allweddol yn ystod 2023. Ar y cyfan, mae'n rhesymol rhagweld bod y cynnydd mewn costau mewnbwn bellach yn debygol o barhau o leiaf yn y tymor canolig.

Er ein bod yn cydnabod bod pob maes o wariant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymorth Grant i CNC, hefyd o dan lefelau straen digynsail, mae NFU Cymru yn glir bod angen ystyried cynigion CNC ar gyfer ei ffioedd a'i daliadau yn y dirwedd economaidd ehangach a ddisgrifir uchod. Mae ffermwyr Cymru yn wynebu ystod eang o heriau ac yn delio ag ansicrwydd economaidd sylweddol o ganlyniad i ffactorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth yn llwyr.

Rydym yn gadarn o’r farn y dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau roi ystyriaeth briodol i fforddiadwyedd cynigion a'u heffaith ar hyfywedd busnesau fferm yn ogystal â'r canlyniadau a'r effeithiau anfwriadol i agenda bolisi ehangach Llywodraeth Cymru, er enghraifft, mewn perthynas â datgarboneiddio, lles anifeiliaid ac adeiladu cydnerthedd economaidd ac amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

**Egwyddorion cyffredinol**

Mae ffermwyr yn rheoli dros 80% o arwynebedd tir Cymru ac, o'r herwydd, mae ganddynt rôl ganolog i'w chwarae wrth gyflawni amcanion hinsawdd a natur Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'u rôl cynhyrchu bwyd craidd. Mae ffermwyr hefyd yn hanfodol i gyflawni pwrpas craidd CNC i fynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR).

Mae NFU Cymru yn glir na ellir cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru a CNC drwy reoleiddio yn unig, a bydd dull partneriaeth gyda ffermio yn hanfodol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod na all ffermwyr gyflawni'r manteision lluosog y mae cymdeithas yn eu ceisio ac ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau oni bai eu bod mewn sefyllfa hyfyw a bod yna sefydlogrwydd economaidd. Yn gyffredinol, mae'n hanfodol bod y llywodraeth a'i rheoleiddwyr yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant amaethyddol a'i gyfraniad unigryw drwy'r fframwaith polisi a rheoleiddio.

Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod rheoleiddio, lle rydym yn golygu 'gweithgaredd rheoleiddiol' sy'n cyfeirio at yr ystod gyfan o opsiynau ac ymyriadau rheoleiddio sydd ar gael i reoleiddwyr, yn fater sy'n bwysig iawn i'n haelodau; mae'n ychwanegu cost a chymhlethdod ac mae'n cymryd amser i gyflawni a dangos cydymffurfiaeth. Gall effaith gronnol rheoleiddio danseilio hyder a rhwystro datblygiad busnesau fferm. Mae hefyd yn hanfodol bwysig nad yw ffermwyr yng Nghymru, drwy'r fframwaith rheoleiddio a'r gyfundrefn codi tâl gysylltiedig, yn cael eu rhoi dan anfantais gystadleuol.

Dymuna NFU Cymru atgoffa CNC o'r prif egwyddorion ar gyfer ffioedd, ardollau a thaliadau a nodir gan Lywodraeth Cymru yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'. Mae'r canllawiau'n glir, sef y dylai sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus bob amser geisio rheoli eu costau fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. Fel arfer, dylid trosglwyddo effaith costau is i ddefnyddwyr trwy godi tâl is. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi bod disgwyl i sefydliadau cyhoeddus beidio ag elwa ar draul defnyddwyr na gwneud colled a fydd yn golygu bod angen cymhorthdal gan drethdalwyr ac mae hyn yn gofyn am onestrwydd ynghylch amcanion polisi a thryloywder trylwyr er budd y cyhoedd. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi pwyslais ar fonitro perfformiad y gwasanaeth y codir tâl amdano.

Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod yr egwyddorion tryloywder ac arbedion effeithlonrwydd yn cael eu hatgyfnerthu yn y Cod Rheoleiddwyr sy'n nodi'n glir y dylai rheoleiddwyr osgoi gosod beichiau rheoleiddio diangen trwy eu gweithgareddau rheoleiddio (yr ystod gyfan o opsiynau ac ymyriadau rheoleiddiol) ac y dylent asesu a ellid cyflawni canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebyg trwy ddulliau llai beichus. Mae'r Cod hefyd yn nodi, mewn perthynas â ffioedd a thaliadau, y dylai Rheoleiddwyr sicrhau bod eu dull o ymdrin â'u gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw ac yn egluro'n glir y sail ar gyfer cyfrifo.

Yng nghyd-destun Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r Cod Rheoleiddwyr, mae NFU Cymru yn parhau i fod â phryderon sylweddol am ddull CNC o ymdrin â'i ffioedd a'i daliadau. Mewn ymateb i ymgynghoriad yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl (2023) roedd NFU Cymru yn glir bod y cyfrifoldeb ar CNC i ddangos mwy o dryloywder a dangos bod codiadau mewn costau yn deg, yn gymesur ac yn gystadleuol. Fe wnaethom hefyd alw ar CNC i ddangos ei fod yn effeithlon yn ei brosesau ac yn gwneud popeth o fewn ei allu i gadw costau'r gwasanaethau hyn mor isel â phosibl, gan roi pwyslais cryf ar ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i'w gwsmeriaid.

Mae NFU Cymru yn galw am adolygiad annibynnol llawn o ffioedd a thaliadau CNC i roi hyder i'r rhai y mae'n eu rheoleiddio bod y taliadau'n dryloyw, yn deg ac yn gymesur ac yno i gefnogi CNC i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n cynrychioli gwerth am arian i gwsmeriaid. Ar ben hynny, dylid atal yr adolygiad strategol o ffioedd cynhaliaeth blynyddol nes bod yr adolygiad annibynnol llawn wedi'i gwblhau. Dylai CNC hefyd ddatblygu system o fonitro perfformiad ar gyfer y drefn codi tâl gan gynnwys nodi dangosyddion perfformiad allweddol ac adolygiad allanol yn flynyddol.

**5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddio CNC ddylai dalu amdanynt yn hytrach na'r trethdalwr neu'r talwyr taliadau eraill?**

Anghytuno'n gryf

Mae NFU Cymru yn credu, yng nghyd-destun trwyddedu, nad yw cymhwyso'r egwyddor mai'r 'llygrwr sy'n talu' yn gwbl glir. Os gellir sicrhau, drwy'r gyfundrefn drwyddedu, y gellir sicrhau nwyddau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys diogelwch bwyd a bywiogrwydd gwledig a budd economaidd-gymdeithasol credwn y gellir gwneud achos cryf dros gefnogi cyflwyno'r drefn codi tâl drwy Gymorth Grant. Mae angen i CNC gydnabod hefyd y bydd ffermwyr yn ganolog i gyflawni ei amcanion amgylcheddol wrth symud ymlaen, a dim ond o sefyllfa o hyfywedd economaidd y gall busnesau fferm gyflawni buddion ehangach i gymdeithas. Mae cyfundrefn reoleiddio sy'n galluogi, sy'n cynnwys trwyddedu, yn hanfodol i ffermwyr fel y gallant ddatblygu ac adeiladu cydnerthedd economaidd ac, felly, cydnerthedd amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r rhagdybiaeth sy'n sail i'r cwestiwn hefyd yn awgrymu bod y gwasanaethau rheoleiddio a ddarperir gan CNC yn effeithlon, yn gost-effeithiol ac yn darparu gwerth am arian. Mae NFU Cymru yn glir nad dyma brofiad ein haelodau sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddio CNC ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwn, ni chredwn ei bod yn deg i CNC drosglwyddo costau ei wasanaethau i'r rhai y mae'n eu rheoleiddio lle gellid cyflawni gwelliannau ac, felly, arbedion cost. Pwysleisiwn unwaith eto y dylai hyn fod wedi bod yn gam annatod ym methodoleg yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl a gymhwyswyd yn 2023 ac rydym yn siomedig o weld nad oes unrhyw dystiolaeth nac ymgysylltiad â'r diwydiant i'r perwyl hwn.

**6. A ydych chi'n credu bod dewisiadau gwell o ran sut mae CNC yn bwriadu ariannu ei weithgareddau rheoleiddio?**

Ydyn. Fel uchod, mae NFU Cymru yn credu y dylid cynnal adolygiad annibynnol llawn o gyfundrefn codi tâl CNC er mwyn sicrhau lefelau uwch o atebolrwydd a thryloywder. Dylai'r adolygiad annibynnol nodi lle y gellid symleiddio systemau a phrosesau a lle y gellid gwneud arbedion effeithlonrwydd gyda'r nod o gadw costau mor isel â phosibl.

Mae NFU Cymru hefyd o'r farn y dylid gwerthuso'r gyfundrefn drwyddedu i nodi lle mae buddion nwyddau cyhoeddus ehangach i gymdeithas yn cael eu darparu gyda'r bwriad o gefnogi'r costau drwy Gymorth Grant.

**11. Ar ôl ystyried ein cynigion a'n gwybodaeth ategol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynllun arfaethedig o ran mantoli a chynnydd yn unol â chwyddiant i gyfundrefnau mewn diffyg ariannol?**

Anghytuno

**12. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu darparu mewn perthynas â'n cynnydd arfaethedig ar gyfer cyfundrefnau sydd â diffyg i ymdopi â chwyddiant a mantoli eu cyfrifon?**

Mae NFU Cymru yn croesawu ymrwymiad CNC i gynnal cyn belled ag y bo modd y taliadau cynhaliaeth blynyddol presennol. Fodd bynnag, nodwn, ar gyfer ffermydd sy'n dal trwyddedau presennol, fod CNC yn cynnig cynnydd yn unol â chwyddiant ar draws llawer o gyfundrefnau. Gofynnwn i CNC ystyried y cynigion hyn yng nghyd-destun y pwysau chwyddiant sylweddol sy'n effeithio ar gynhyrchu bwyd a amlinellwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn. Byddai NFU Cymru unwaith eto yn ailadrodd ein galwadau am adolygiad annibynnol llawn o ffioedd a thaliadau CNC i nodi lle y gellir cyflawni arbedion effeithlonrwydd a chost gyda'r bwriad o gadw costau dan reolaeth. Nid ydym o’r farn ei bod yn gynaliadwy i CNC barhau i godi ei ffioedd a'i daliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn heb archwilio yn gyntaf lle y gellir gweithredu arbedion cost.

**13. A allai'r cynigion effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Os felly, esboniwch yn y blwch isod**

**14. A oes modd i ni gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg neu roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Os felly, esboniwch yn y blwch isod**

**15. A oes unrhyw agweddau ar y cynigion a allai roi pobl dan anfantais wrth ddefnyddio'r Gymraeg? Os oes, esboniwch yr effeithiau a sut y gellid eu lliniaru**

**16. Ydych chi'n credu bod y cynigion yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050 - Miliwn o siaradwyr' – dogfen strategaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnydd o’r Gymraeg - yn nodi'r Gymraeg fel 'un o drysorau Cymru' ac yn sefydlu gweledigaeth ar gyfer 2050 o iaith Gymraeg sy'n ffynnu, lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cyrraedd miliwn a lle mae pawb yn cydnabod ei chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Yn y cyd-destun hwn, byddai NFU Cymru yn cyfeirio Cyfoeth Naturiol Cymru at dystiolaeth sy'n cydnabod rôl ffermwyr Cymru fel hyrwyddwyr ac amddiffynwyr allweddol ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg.

Mae dogfen Amaethyddiaeth yng Nghymru Llywodraeth Cymru (2019) yn rhoi crynodeb o nifer y siaradwyr Cymraeg yn seiliedig ar ganlyniadau cyfrifiad 2011. Yn gyffredinol, mae 43% o weithwyr ym meysydd Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgodfeydd yn siarad Cymraeg o'i gymharu â chyfartaledd o 17% ar draws holl weithwyr Cymru. Y ffigur hwn yw'r ganran uchaf o unrhyw sector. Mae pedair o'r chwe sir ar y brig o ran cyfran y siaradwyr Cymraeg yn adlewyrchu pedair o'r chwe sir ar y brig o ran y boblogaeth a gyflogir ym meysydd Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgodfeydd (Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin).

Mae'r dystiolaeth yn ddefnyddiol wrth dynnu sylw at rôl ffermio o fewn ein cymunedau o ran gwarchod y Gymraeg. Ar y cyfan, ein barn gref yw bod iaith Gymraeg ffyniannus mewn ardaloedd gwledig yn cael ei hategu gan ffermydd Cymreig ffyniannus; bydd unrhyw gynigion sy'n gwanhau'r sector ffermio yn y pen draw yn gwanhau ein hiaith Gymraeg a'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl a chenedl.

Mae ffermio, felly, yn ganolog i ddyfodol y Gymraeg. Mae llawer o fusnesau fferm wedi datblygu mentrau amgen i ddarparu ffrwd incwm ychwanegol i gadw'r busnes teuluol yn hyfyw ac i sicrhau cyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf aros o fewn y busnes a byw yn yr ardal. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae'n debygol y bydd datblygu mentrau o'r fath yn fwyfwy pwysig ar ffermydd Cymru. O ganlyniad, rydym yn parhau i bryderu bod CNC, drwy ei drefn codi tâl, wedi methu â chydnabod yr effeithiau negyddol ar ffermydd teuluol Cymru a phwysigrwydd sylfaenol diwydiant ffermio ffyniannus ac economaidd hyfyw yng Nghymru i gynnal y Gymraeg.

## Atodiad 1 – Cyfraniad Amaethyddiaeth i Lesiant Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru wedi'i chynllunio i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn pennu saith nod y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, weithio i'w cyflawni. Mae'r cyfraniad y mae ffermio yn ei wneud i gyflawni pob un o'r saith nod yn ddigyffelyb gan unrhyw ddiwydiant arall, fel yr amlygir yn y canlynol:

| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:<br><br>Nodau llesiant | NFU Cymru: Amaethyddiaeth yw'r Ateb |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | • 60,000 yn gyflogedig yn llawn amser neu'n rhan-amser ym myd amaeth yng Nghymru<br>• Allbwn gros o £1.5 biliwn<br>• Ffermio'n tanategu cadwyn cyflenwi bwyd gwerth dros £6 biliwn<br>• Dros 220,000 o bobl Cymru'n gyflogedig yn y sector bwyd-amaeth, cyflogwr mwyaf Cymru<br>• Cefn gwlad Cymru, wedi'i reoli gan ffermwyr, yn creu'r cefndir godidog ar gyfer diwydiant twristiaeth gwerth mwy na £2.5 biliwn<br>• **Mae diwydiant amaethyddol Cymru yn gynhyrchydd cyfoeth a chyflogaeth allweddol i bobl Cymru.** |
| **Cymru gydnerth** | • Ffermwyr yn gofalu am 81% o dir Cymru, mwy na 1.84 miliwn hectar<br>• 600,000 hectar o ardaloedd wedi'u dynodi'n amgylcheddol<br>• Bron i 560,000 hectar yn cael eu rheoli o dan Gynllun Rheoli Tir Cynaliadwy Glastir Sylfaenol a luniwyd i wrthsefyll newid hinsawdd, gwella rheolaeth dŵr a chynnal a gwella bioamrywiaeth<br>• Ffermio'n cefnogi amrywiaeth eang o rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau<br>• Ffermwyr yn darparu ystod o wasanaethau ecosystem yn cynnwys storio carbon, ansawdd dŵr a lliniaru llifogydd<br>• Potensial i systemau ynni carbon-isel lleol i fodloni 57% o'r galw am ddefnydd trydan yng Nghymru, gyda chyfran helaeth o'r prosiectau wedi'u lleoli o fewn cwmpas awdurdodau lleol gwledig Cymru<br>• Allyriadau nwyon tŷ gwydr o amaethyddiaeth wedi gostwng o 20% ers 1990 gyda gostyngiadau pellach yn cael eu cyflawni trwy fesurau cynhyrchu effeithlon<br>**• Mae ffermwyr Cymru yn chwarae rhan allweddol yn cynnal a gwella ein hamgylchedd naturiol ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu ystod lawn o wasanaethau ecosystem.** |
| **Cymru iachach** | • Amaeth Cymru yn ddarparwr bwyd Cymru allweddol - bwyd sy'n ddiogel, maethlon ac o ansawdd uchel - sy'n gyfraniad sylfaenol wrth gefnogi lles corfforol a meddyliol pobl Cymru<br>• Ffermwyr Cymru'n adnabyddus am weithredu yn unol â rhai o'r safonau lles anifeiliaid a chynhyrchu uchaf yn y byd |

| | |
|---|---|
| | • Ffermio Cymru hefyd yn darparu cyfran fawr o fynediad i gefn gwlad Cymru, yn cynnwys 16,000 milltir o lwybrau troed, 3,000 milltir o lwybrau ceffyl, 1,200 milltir o rwydwaith beicio, a 460,000 hectar o dir mynediad agored<br>• **Mae ffermio yng Nghymru yn gwneud cyfraniad allweddol at les corfforol a meddyliol pobl Cymru.** |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | • Cefn gwlad yn gartref i 33% o boblogaeth Cymru<br>• Bywiogrwydd a photensial ein hardaloedd gwledig wedi'u cysylltu'n agos â phresenoldeb sector ffermio cystadleuol a deinamig. Pob fferm deuluol fel arfer yn gysylltiedig yn economaidd ag oddeutu 40 i 80 o fusnesau eraill yn eu hardal yn ôl 'Pam mae ffermio'n bwysig i Economi Cymru'.<br>**• Trwy gyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn cymunedau gwledig, mae ffermio yng Nghymru yn sail i'r economi wledig ac yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal.** |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | • Cymunedau lleol yng nghefn gwlad Cymru yn ddibynnol iawn ar amaethyddiaeth am eu ffyniant economaidd a chymdeithasol.<br>• Aelodau'r sector ffermio'n chwarae rhannau arweiniol a gwirfoddol mewn cymunedau gwledig<br>• **Mae ffermwyr Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol at ddarparu cymunedau deniadol, hyfyw, diogel mewn ardaloedd gwledig.** |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | • Ym myd amaeth y ceir y gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg o unrhyw sector.<br>• Ffermio yw sylfaen ein cymunedau gwledig ledled Cymru a gafodd eu siapio gan weithgarwch ffermio dros ganrifoedd; mae ffermwyr yn parhau i gynnal y traddodiadau hyn, yn diogelu diwylliant gwledig a'r ymdeimlad o gynefin yn fyw<br>• **Mae ffermwyr Cymru yn hyrwyddwyr ac yn amddiffynwyr allweddol ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg.** |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | • Mae lefelau hunangynhaliol cyfredol ar lefel y DU yn 62%.<br>• Mae heriau'r dyfodol i'n system cynhyrchu bwyd fyd-eang yn cynnwys newid hinsawdd, twf poblogaeth y DU a dros y byd, prinder dŵr. Oherwydd ei hinsawdd a'i glawiad, rhagwelir y bydd Cymru yn wlad a ffefrir ar gyfer cynhyrchu bwyd yn y dyfodol<br>**• Mae gan ffermwyr Cymru ran allweddol i'w chwarae o ran bwydo pobl Cymru a chyfrannu at sicrwydd bwyd byd-eang nawr ac yn y dyfodol.** |

## ATODIAD 3 – Rhestr Termau

| Acronym / Term | Ystyr |
|---|---|
| A wnaed yn briodol | Cais am drwydded amgylcheddol sydd wedi'i dderbyn ac sydd â'r wybodaeth gywir, gan gynnwys yr holl ddogfennau gofynnol, ffotograffau, ffioedd, a gwybodaeth atodol y gofynnir amdani gennym ni ar gyfer gwneud penderfyniad |
| CCG | Grŵp Ymgynghorol Talwyr Taliadau |
| CNC/NRW | Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales |
| COMAH | Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr |
| CSO | Gorlif carthffosydd cyfunol |
| Cydymffurfio | Cadw at reolau trwydded neu ganiatâd |
| Cymorth Grant | Cyllideb gan Lywodraeth Cymru i CNC ar gyfer gweithgarwch a chostau busnes na ellir eu codi |
| DC/WW | Dŵr Cymru/ Welsh Water |
| Diwrnodau/oriau y codir tâl amdanynt | Gwaith trwyddedu neu gydymffurfio gweithredol heblaw gwyliau, hyfforddiant etc. |
| EA | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| EPR | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol |
| Erthygl 12A | Pwerau i CNC adennill costau am nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Galluogi | Timau / Staff sy'n ofynnol ar gyfer trwyddedu a staff cydymffurfiaeth i weithredu o fewn y sefydliad |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| Modelu costau | Data amser ac adnoddau staff a ddefnyddir i gyfrifo costau ar gyfer gwaith trwyddedu neu gydymffurfio gweithredol |
| RhACC/MWPM | Dogfen *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru |
| SEPA | Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yn yr Alban |
| SMNR | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| SRoC | Adolygiad Strategol o Godi Tâl |
| Strwythur Tâl | Cyfrifiadau'n seiliedig ar gostau CNC ar waith trwyddedu gweithredol a chydymffurfio |
| Trwydded Bwrpasol | Trwydded sy'n benodol i safle (nid set o reolau safonol) |
| Trwyddedu | Mae trwyddedu'n cynnwys penderfynu ar gais am drwydded amgylcheddol, trwydded, caniatâd ac awdurdodiadau eraill yn ogystal ag amrywiadau, trosglwyddiadau ac ildio trwyddedau presennol |
| WwTW | Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (WwTW) |